

Arolygiad Dilynol Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty'r Tywysog Siarl, Yr Adran Achosion
Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigo

Dyddiad yr arolygiad: 18 a 19 Ionawr 2022

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	33
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	45
4.	Beth nesaf?	55
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	56
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	57
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	59
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	60

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd o'r Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 18 a 19 Ionawr 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Chyngor Clinigol AGIC, dau arolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Cynlluniwyd yr arolygiad yn wreiddiol i ganolbwyntio ar yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol. Fodd bynnag, ar ôl cyrraedd yr uned, cawsom ein hysbysu bod cleifion oedd wedi cael canlyniad COVID-19 positif yn aros yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol. O ganlyniad, gwnaed penderfyniad i ganolbwyntio ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr Adran Achosion Brys yn unig, gyda ffocws cyfyngedig iawn ar yr Uned Penderfyniadau Clinigol.

Ceir rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar adeg yr arolygiad dilynol hwn, canfuom fod yr Adran Achosion Brys, fel drws blaen i system ehangach, yn parhau i brofi cyfnod o bwysau uwch yn sgil galw diarbed ar wasanaethau yn sgil pandemig COVID-19. Roedd llif y cleifion trwy'r ysbyty yn parhau i fod yn broblem oherwydd argaeledd gwelyau. Unwaith eto, gwnaethom gydnabod bod hwn yn parhau i fod yn amgylchedd heriol a dirboenus iawn i rai aelodau o staff, sy'n parhau i fynd yr ail filltir mewn amgylchiadau eithriadol a heriol.

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â mwyafrif y gwelliannau a restrir yn y cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn yr arolygiad blaenorol a'u cynnal. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd yn parhau i fod angen sylw a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Diogelwch a gwirio symptomau wrth y brif fynedfa i'r Adran Achosion Brys
- Goruchwyliaeth well o'r ystafelloedd aros
- Llwybrau gofal COVID-19 clir
- Arwyddion a gwybodaeth well am lwybrau gofal
- Atal a rheoli heintiau
- Amgylchedd mewnol glân a thaclus
- Archwilio ac adrodd
- Diogelwch yr adran bediatrig
- Goruchwyllo'r gwaith o reoli'r adran
- Arwain a llywodraethu o fewn yr adran, yr ysbyty a'r bwrdd iechyd
- Cyfarfodydd Safe-2-Start.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer yr ardal triniaeth ddydd
- Preifatrwydd ac urddas y cleifion yn yr ardal triniaeth ddydd
- Arsylwi a monitro'r cleifion yn barhaus yn yr ardal triniaeth ddydd
- Rheoli poen
- Rhai meysydd o reoli meddyginiaethau
- Sefydlu ffordd gyson o ymchwilio i achosion o heintiau
- Rhai agweddau ar staff nyrsio
- Cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ysbyty cyffredinol dosbarth ym Merthyr Tudful. Mae'n cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Fe'i hagorwyd yn swyddogol yn 1978. Agorwyd Canolfan Gofal Brys newydd yn 2012, a chymeradwywyd gwaith i ailwampio'r ysbyty cyfan yn llwyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013. Roedd y gwaith ailwampio wrthi'n cael ei wneud adeg yr arolygiad.

Mae'r ysbyty yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol brys aciwt a dewisol, gofal dwys a gofal coronaidd, gwasanaethau obstetreg dan arweiniad ymgynghorydd gydag uned gofal arbennig i fabanod, a meddygaeth bediatrig i gleifion mewnlol dan arweiniad ymgynghorydd. Mae saith theatr llawdriniaethau. Mae'r ysbyty hefyd yn darparu gwasanaethau llawdriniaeth gêr ac wyneb a llawdriniaeth y geg isranbarthol, ac ystod lawn o wasanaethau i gleifion allanol a ddarperir yn lleol a chan arbenigwyr sy'n ymweld, ac mae ganddo ystod eang o wasanaethau diagnostig.

Roedd yr Adran Achosion Brys yn cynnwys y canlynol:

- Derbynfa ac ystafell aros
- Ystafelloedd brysbennu – lle mae cleifion yn cael eu hasesu er mwyn penderfynu pa rai yw'r mwyaf sâl ac mae'n rhaid eu trin yn gyntaf
- Man mân anafiadau – lle mae cleifion â mân anafiadau neu anhwylderau'n cael eu trin
- Man anafiadau difrifol – lle mae cleifion ag anafiadau difrifol yn cael eu trin
- Ardal triniaeth ddydd - yn darparu gofal yr un dydd i gleifion trwy asesiad, diagnosis a thriniaeth gyda'r nod o gael y cleifion adref yr un diwrnod, heb orfod cael eu derbyn i'r ysbyty dros nos
- Ardal ddadebru – lle mae'r cleifion mwyaf sâl neu'r cleifion â'r anafiadau mwyaf difrifol yn cael eu trin
- Ystafell driniaeth ac ystafell aros bediatrig ar wahân
- Ardal aros i gleifion sydd wedi cael canlyniad COVID-19 positif
- Ardal lle cynhelir asesiadau meddygon teulu

Lleolir yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn gyfagos i'r Adran Achosion Brys. Derbynnir cleifion i'r uned yn uniongyrchol o'r Adran Achosion Brys a thrwy atgyfeiriadau uniongyrchol gan feddygon teulu. Gallai fod angen archwiliadau, gweithdrefnau a gwaith sefydlogi pellach ar gleifion sy'n cael eu derbyn i'r Uned Penderfyniadau Clinigol cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r ward fwyaf priodol neu ysbyty arall, neu cyn iddynt gael eu rhyddhau adref.

Yn flaenorol, arolygodd AGIC yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol ar 13, 14 a 15 Medi 2021, pan wnaethom dynnu sylw at nifer o faterion o bryder yr ymdriniwyd â nhw o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC. Roedd hyn yn golygu ysgrifennu at y bwrdd iechyd, cyn pen dau ddiwrnod ar ôl cwblhau'r arolygiad, yn amlinellu'r materion ac yn gofyn am ymateb ysgrifenedig cyn pen saith diwrnod. Yn ogystal â'r materion yr ymdriniwyd â nhw o dan y broses sicrwydd ar unwaith, gwnaethom amlygu meysydd eraill i'w gwella a oedd yn rhan o gynllun gwella. Roedd ymateb y bwrdd iechyd i'r sicrwydd ar unwaith a gwelliannau eraill a amlygwyd yn amserol ac yn gadarn. Yn ogystal, cawsom gynllun gwella wedi'i ddiweddarau yn fuan ar ôl yr ymweliad arolygu hwn.

Pwrpas yr arolygiad hwn oedd cymryd camau dilynol ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu a chynnal mwyafrif o'r gwelliannau, sy'n ymwneud ag ansawdd profiad y claf, a amlygwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad blaenorol

- Nid oedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn amddiffyn y cleifion a'r staff. Roedd yr arferion a arsylwyd yn rhoi'r cleifion a'r staff mewn perygl sylweddol o niwed.
- Roedd y trefniadau ar gyfer gwaith goruchwyllo a mynediad i'r ystafell aros, yn rhoi'r cleifion mewn perygl o niwed a dirywiad nas gwelwyd. Nid oedd digon o gyfleusterau i ymgymryd ag ymyriadau clinigol hanfodol.
- Roedd yr ardal lle cynhelir asesiadau meddygon teulu yn cael ei defnyddio fel man ar gyfer meddygon teulu y tu allan i oriau i asesu cleifion oedd wedi cael canlyniad positif am COVID-19, gan roi'r cleifion a'r staff mewn risg o ddal heintiau.
- Nid oedd yr amgylchedd wedi'i gynllunio mewn ffordd ddiogel ac nid oedd bob amser yn cael ei gynnal a'i gadw i lefel ddiogel ac roedd hyn yn cyflwyno risg o ddal heintiau. Roedd diogelwch yr adrannau yn annigonol ac yn golygu bod cyfleoedd i aelodau'r cyhoedd gael mynediad i bob ardal ac roedd hyn yn peri nifer o risgiau gan gynnwys ymyrryd â meddyginiaethau, lladrata a bygythiadau i'r staff a'r cleifion.
- Nid oedd digon o gyfleusterau i'r cleifion ddefnyddio'r toiled yn y man mân anafiadau, yr ystafell aros a'r uned lle cynhelir asesiadau meddygon teulu

- Roedd yr adran a'r uned lle cynhelir asesiadau meddygon teulu yn gwbl orlawn i lefel lle a oedd yn effeithio ar urddas a diogelwch y cleifion.
- Nid oedd digon o staff yn yr ardal bediatrig ac nid oedd yr amgylchedd yn addas i roi gofal diogel ac urddasol.

Pa gamau y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Lansiwyd rhaglen wella strwythuredig ym mis Gorffennaf 2021, a datblygwyd cynllun cychwynol. Caiff cynnydd ei fonitro drwy fwrdd rhaglen noddedig gweithredol ac adroddir i uwch-reolwyr drwy strwythur llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Mae Dogfen Cychwyn Prosiect wedi'i chynhyrchu fel sail i'r rhaglen waith ar gyfer gwella. Ar ddechrau mis Medi 2021, roedd y rhaglen hon wedi cwblhau'r gwaith diagnostig cychwynol ar gyfer perfformiad ansawdd yr Adran Achosion Brys yn erbyn safonau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys a nododd fod canfyddiadau yn gyson ag adolygiad AGIC.
- Mae cyfarwyddwr gwelliant wedi'i benodi i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r cynllun (a fydd yn cynnwys y camau gweithredu sy'n cael eu dwyn ymlaen o'r adolygiad hwn).
- Adolygiad o'r gofrestr risg i alinio â'r risgiau a nodwyd drwy'r rhaglen wella, gyda strategaeth hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gadarn ar waith i sicrhau bod y tîm yn rheoli'r risgiau mewn ffordd ragweithiol yn unol â chanllawiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Sesiwn ymwybyddiaeth o risgiau wedi'i threfnu gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Cynorthwyol a Phennaeth Ansawdd y Grŵp Ardal Integredig, gan gryfhau'r gofynion llywodraethu ansawdd ymhellach.
- Paneli craffu misol i adolygu'r holl niwed yn sgil cwmpadau a briwiau pwysu yn unol â'r llwybr Cymru gyfan. Wrth adolygu'r achosion hyn, rhoddir ystyriaeth bob amser i'r oedi posibl a'r amser y bydd unigolyn yn ei dreulio yn yr Adran Achosion Brys ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty.
- Darparwyd hyfforddiant pellach gan y nyrs hyfywedd meinwe ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro o fewn strwythur cyfarfod ansawdd a diogelwch y Grŵp Ardal Integredig.
- Mae safonau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys yn canolbwyntio ar wella profiad y claf. Cwblhawyd archwiliad gan y Tîm Corfforaethol i

asesu cydymffurfedd ym mis Medi 2021. Yn erbyn y 34 o'r safonau hanfodol, roedd cydymffurfedd yn 50%. Yn erbyn 16 o'r safonau datblygu, roedd cydymffurfedd yn 42%. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu bwydo i gynllun gweithredu manwl ar hyn o bryd a bydd hwnnw bellach yn cael ei gyfuno â chanfyddiadau adolygiad AGIC

- Mae'r holl staff wedi cael sesiwn frifio drwy ystod o sesiynau brifio arweinyddiaeth a thîm sydd hefyd wedi cael eu rhaedru drwy gyfarfodydd diogelwch yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol.
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r coridor anafiadau difrifol ar gyfer gofal cleifion sy'n arwain at bellter diogel priodol ar gael i ganiatáu gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol.
- Bydd hyrwyddwr/swyddog gwisgo a thynnu yn cael ei neilltuo a bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu i'r tîm cyfan. Sicrwydd i'w gael o archwiliadau atal a rheoli heintiau dyddiol.
- Cysylltodd y Pennaeth Nyrsio â'r staff mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau yn unol â'r Weithdrefn Safonau Glendid. Nodwyd arweinwyr tîm ar gyfer y meysydd i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal yn ddyddiol. Mae cynllun ar waith i amlygu cyfrifoldebau'r tîm amlddisgyblaethol o fewn yr Adran Achosion Brys i gynnal safonau uchel.
- Mae cydymffurfedd â'r canllawiau cyfarpar diogelu personol priodol wedi cael ei ailbwysleisio i'r timau clinigol mewn sawl ffordd: y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, cyfarfodydd diogelwch dyddiol.
- Cyfarfodydd ymgysylltu â'r staff. Mae'r adolygiad boreol dyddiol gan y nyrs â gofal a'r gwiriad yn y prynhawn gan un o'r uwch-arweinwyr hefyd yn atgyfnerthu'r gofyniad i gynnal y safonau priodol ar gyfer cyfarpar diogelu personol, gan annog y tîm i herio eraill os nad yw safonau'n dilyn y canllawiau.
- Gosod arwyddion a phosteri priodol i sicrhau bod y staff a'r ymwelwyr yn ymwybodol o'r gofynion cyfarpar diogelu personol yn yr adran. Mae'r tîm wedi comisiynu cwmni i osod arwyddion trwy gydol yr adran a safle'r ysbyty.
- Gosodwyd gwiriwr symptomau 24/7 ym mhrif fynedfa'r adran i asesu statws COVID-19 tebygol y cleifion a gwahanu'r cleifion yr amheuir bod COVID-19 ganddynt neu y cadarnhawyd bod COVID-1 ganddynt a'u harwain i ystafell aros arall. Mae'r gwiriwr symptomau yn monitro p'un

a yw'r rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol a chyfarpar diogelu personol yn cael eu parchu yn ardal yr ystafell aros er mwyn lliniaru'r risgiau gymaint â phosibl.

- Gwnaed newidiadau ar unwaith i'r polisi gweithredol yn yr Adran Achosion Brys sydd wedi caniatáu i'r coridor anafiadau difrifol beidio â chael ei ddefnyddio mwyach i ofalu am gleifion.
- Mae set benodol o gamau gweithredu'n cael ei datblygu ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu'r gwahanu cyffredinol o lwybrau. Mae camau gweithredu ar unwaith mewn perthynas â gwneud yr ystafell aros a'r gwaith o wahanu staff yn ddiogel wedi cael eu cwblhau. Mae'r gwaith manylach sy'n ymwneud ag ailfodelu'r Adran Achosion Brys yn cael ei wneud ar y cyd â'r tîm atal a rheoli heintiau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cwblhawyd archwiliad blynyddol atal a rheoli heintiau ym mis Ebrill gyda chydymffurfedd o 61% – mae camau ar unwaith wedi'u cymryd a'u cwblhau. Cwblhawyd archwiliad llawn pellach gan y tîm atal a rheoli heintiau o'r Adran Achosion Brys ar 16 Medi a nodwyd sawl cam gweithredu. Nodwyd bod cydymffurfedd yn 53% a chymerwyd camau ar unwaith i ddatrys y pryderon.
- Mae gwaith monitro parhaus o'r ardaloedd yn parhau bob dydd gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno rhwng 7am a 9am gan y nyrs â gofal, ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Nyrsio, Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig¹. Mae'r uwch-arweinwyr yn cerdded o gwmpas yr adran bob prynhawn i adolygu aciwtedd yr adran a phryderon y Grŵp Ardal Integredig, ac i gyfarfod â'r staff a sicrhau amlygrwydd cryf gan arweinwyr.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r archwiliad glanhau dros y 12 mis diwethaf gyda chanlyniad ar gyfartaledd o 89%.

¹ Grŵp Ardal Integredig Merthyr a Chynon yw model gweithredu newydd a fabwysiodd gan y bwrdd iechyd ar 1 Ebrill 2020.

- Cynyddodd cymorth cadw tŷ i 24/7 ar 20/9/21, gydag adolygiad bob dydd o safonau gan y rheolwr cyfleusterau.
- Mae'r Pennaeth Nyrsio wedi cysylltu â'r staff mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau yn unol â'r Weithdrefn Safonau Glendid. Nodwyd arweinwyr tîm ar gyfer y meysydd i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal yn ddyddiol. Mae cynllun ar waith i amlygu cyfrifoldebau'r tîm amlddisgyblaethol o fewn yr Adran Achosion Brys i gynnal safonau uchel.
- Oherwydd ôl troed yr Adran Achosion Brys, cydnabuwyd yn y cynllun gwella (Mehefin 21) bod gofynion y lefelau staffio meddygol gyda'r nos yn cynyddu o un radd ganol gyda'r buddion cydnabyddedig o llif well, cymorth i'r staff iau, diogelwch gwell, profiad gwell i'r cleifion, amseroedd atgyfeirio gwell oherwydd trafodaeth gradd ganol i radd ganol, perfformiad pedair awr gwell a lleihau oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys.
- Y staff nyrsio a gyllidir yw deg nyrs gofrestredig a phedwar gweithiwr cymorth gofal iechyd; mae hyn wrthi'n cael ei adolygu yn unol ag ôl troed yr adran a'r newidiadau awgrymedig i dempled yr adran ac mae papur staffio wrthi'n cael ei lunio. Oherwydd yr heriau hyn, cytunwyd ar lefelau staffio o 13 nyrs gofrestredig a phum gweithiwr cymorth gofal iechyd 24/7; mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr ardal ddadebru ddwy nyrs Band 6 yn bresennol ar bob shift – nid oedd hyn yn ofyniad yn flaenorol.
- Yn yr adolygiad o'r lefelau staffio, rhoddwyd ystyriaeth i'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen yn y portffolio staffio i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir yn yr Adran Achosion Brys. Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddi wedi'i gwblhau i sicrhau bod gan yr holl staff nyrsio rhwng band dau a band saith y sgiliau a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni eu rôl.
- Mae lefelau staffio yn cael eu monitro mewn adroddiad profforma staffio bob dydd a rennir gyda'r Pennaeth Nyrsio, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Pan na lenwir lefelau staffio trwy nyrsys banc neu asiantaeth, ceisir cymeradwyaeth i ddefnyddio cwmni Thornbury.
- Mae Nyrs Arweiniol ar gyfer gofal heb ei drefnu wedi bod yn cyfarfod â'r Uwch Nyrs ar gyfer yr Adran Achosion Brys bob mis i fonitro gofynion llywodraethu a rheoli'r rôl, adolygiad datblygu perfformiad. Mae cyfraddau salwch a swyddi gwag yn rhan o'r cyfarfod hwn sy'n llywio'r broses o uwchgyfeirio pryderon at y Pennaeth Nyrsio. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob wythnos bellach.

- Bydd yr adolygiad o ddigwyddiadau, pryderon, cwynion a phrofiad y claf yn triongli effeithiolrwydd y camau.
- Gweithredu rôl 'gwiriwr symptomau' gweithiwr cymorth gofal iechyd wrth brif ddrws yr adran i sicrhau bod y cleifion yn cael eu cyfeirio i'r ardal gywir yn dibynnu ar eu cyflwr. Bydd presenoldeb y nyrs gofrestredig hon drwy'r amser yn sicrhau goruchwyliaeth o'r ystafell aros. Mae swyddog diogelwch hefyd yn bresennol wrth y drws i roi sicrwydd a chymorth ychwanegol.
- Mae gan y cleifion sydd yn yr ystafell aros COVID-19 ar hyn o bryd, nad yw o fewn golwg y nyrs gofrestredig, broses rowndio o 30 munud ar waith i adolygu'r cleifion. Mae'r tîm yn ystyried defnyddio cloch alw.
- Mae llwybr wedi'i weithredu i sicrhau bod yr holl gleifion sydd wedi cael eu brysbennu'n cael eu blaenoriaethu a'u monitro yn unol â chanllawiau brysbennu Manceinion².
- Mae larwm cynnwrf wedi'i osod y tu ôl i ddesg y dderbynfa yn yr ystafell aros. Bydd hyn yn caniatáu ymateb cyflym os nodir claf sy'n dirywio yn yr ystafell aros rhwng y rowndiau 30 munud.
- Mae cloch alw nyrs mewn argyfwng yn cael ei gosod y tu ôl i ddesg y dderbynfa, y gellir ei thynnu i hysbysu'r tîm meddygol/nyrsio yn yr adran am argyfwng meddygol. Pan fydd hon yn cael ei gosod, gall y tîm ddefnyddio'r larwm cynnwrf yn ei lle. Bydd hyn yn cael ei ddisodli ar ôl i'r mân waith i ailfodelu waliau yn yr ystafell aros gael ei gwblhau.
- Fel rhan o newidiadau llwybr yr Adran Achosion Brys, mae capasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer mân anafiadau, a fydd yn gwella amseroedd aros yn yr Adran Achosion Brys ac yn lleihau nifer y cleifion sy'n aros – gan gynorthwyo'r gwaith o leihau'r risg yn yr ystafell aros.

² System Frysennu Manceinion yw un o'r systemau brysbennu a ddefnyddir amlaf yn Ewrop. Mae'n galluogi nyrsys i aseinio blaenoriaeth glinigol i gleifion, yn seiliedig ar arwyddion a symptomau a gyflwynir, heb wneud unrhyw ragdybiaeth am y diagnosis sylfaenol.

- Mae gorchuddion rhyddhau drws torri gwydr wedi cael eu gosod ar ddrysau rhwng rhannau o'r adran.
- Mae cysylltiadau diogelwch magnetig hefyd wedi'u gosod i sicrhau y bydd y system drws yn cloi ac na ellir ei datgloi. Bydd hwn yn cael ei fonitro gan nyrs â gofal yr ardal bediatrig a'r man mân anafiadau, wrth ailbwysleisio hefyd na ddylid defnyddio'r ardal fel ffordd drwodd.
- Mae gweithredu'r gwiriwr symptomau a diogelwch ar y prif ddrws hefyd yn sicrhau na ellir defnyddio'r adran fel ffordd drwodd gan eu bod yn cyfeirio staff/ymwelwyr i brif fynedfa'r ysbyty er mwyn cael mynediad at rannau eraill o'r ysbyty.
- Mae arwyddion ychwanegol i gefnogi cloi drysau wrthi'n cael eu cynhyrchu.
- Ar y cyd â chydweithwyr o lechyd Cyhoeddus Cymru, Gwelliant Cymru³ a thîm atal a rheoli heintiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a chydweithwyr clinigol a gweithredol, mae llwybr drafft diwygiedig wedi cael ei ddatblygu. Bydd y llwybr hwn yn mynd i'r afael â materion a godwyd yn ystod yr ymweliad mewn perthynas â gwahanu cyffredinol llwybrau cleifion, defnydd yr ystafelloedd aros, defnydd y man asesu i feddygon teulu, a mynediad heb awdurdod at ardaloedd clinigol.
- Mae angen datrys dau fater sy'n weddill:
 - Cysondeb y llwybr presennol gyda newidiadau disgwylidig i ganllawiau atal a rheoli heintiau cenedlaethol (yn destun ymgynghori ar hyn o bryd)
 - Protocolau gweithredol ar gyfer newidiadau yn y llwybr pediatrig i gefnogi'r cynnig llwybr diwygiedig cyffredinol
- Mae'r llwybr gofal ar gyfer cleifion pediatrig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i sicrhau bod plant yn cael eu symud yn ddiogel yn yr adran. Oherwydd absenoldeb data clir mewn perthynas ag oedi i gleifion gael eu trosglwyddo i'r ward, mae'r tîm wedi gweithredu proses uwchgyfeirio yn dilyn 60 munud o benderfyniad i dderbyn er mwyn llywio'r broses o benderfynu ar lwybr. Os yw cleifion yn cael eu hoedi

³ <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru>

am fwy na 60 munud, mae gofyn i'r tîm gwblhau adroddiad digwyddiad Datix⁴ i sicrhau bod pob achos yn cael ei adolygu mewn modd amserol i bennu'r rhesymau dros yr oedi.

- Mae'r llwybr hwn yn cael ei gefnogi ymhellach gan y newidiadau sy'n arwain at roi'r gorau i ddefnyddio coridorau'r man anafiadau difrifol i ofalu am gleifion.
- Bydd rhoi gofal i gleifion yn y ciwbiclau pan gânt eu derbyn i'r Adran Achosion Brys yn lliniaru rhywfaint o'r risg o ran rheoli cleifion sydd â COVID-19.
- Bydd rôl y gwiriwr symptomau yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod y cleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 yn cael eu rheoli trwy bwynt mynediad gwahanol i'r adran. Mae hwn yn cael ei fonitro'n barhaus drwy gydol y dydd yn ystod cyfarfodydd gwelyau a chyfarfodydd adrannol, gan uwchgyfeirio at yr uwch-reolwr ar alwad yn ôl yr angen.
- Rydym wedi adolygu'r mater o weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau⁵ yn yr adran ddadebru a defnyddio coridor y man anafiadau difrifol ar gyfer cleifion llwybr coch. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth drwy ein system Datix fod hyn wedi digwydd ac rydym wedi adolygu'r sefyllfa gyda'r tîm, sy'n cytuno.
- Fodd bynnag, rydym wedi ailgadarnhau'r llwybr presennol ar gyfer rheoli llwybrau gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau (defnyddio Ward 3) a rôl ciwbiclau'r Uned Penderfyniadau Clinigol ar gyfer cleifion

⁴ Mae Datix yn system adrodd electronig ar gyfer cofnodi digwyddiadau clinigol neu 'digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd'. Mae'n caniatáu i fanylion am ddigwyddiadau gael eu rhannu; galluogi nodi gwendidau yn y system, newid arferion ac arferion ac ail-hyfforddi'r staff lle bo angen. Mae Datix yn caniatáu i ddigwyddiadau gael eu hadrodd mewn amser real gan leihau'r oedi a brofir gyda systemau papur.

⁵ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn disgrifio gweithgaredd a all arwain at ryddhau gronynnau bach yn yr awyr (aerosolau) neu ddefnyddio. O dan amodau penodol, gallai'r aerosolau gynnwys meintiau y gellir eu trosglwyddo o ddeunydd feirysol.

llwybr coch. Bydd arweinydd clinigol yr Adran Achosion Brys yn parhau i fonitro'r mater hwn.

- Mae strwythur y tîm rheoli achosion ar waith yn y bwrdd iechyd i gefnogi'r gwaith o reoli COVID-19 ar safleoedd ysbytai.
- Er mwyn cwblhau'r gwaith hwn, mae'r camau canlynol yn ofynnol ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid/partneriaid eraill:
 - Cwblhau'r asesiad llawn o'r effaith ar ansawdd
 - Datrys materion y llwybr pediatrig
 - Cleifion llwybr meddyg teulu i ddilyn y llwybr cyffredinol neu ddod o hyd i leoliad amgen
 - Rhai mân waith ystadau i'w gwblhau
 - Gorffen model staffio'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau dynodi parthau
- Cwblhawyd archwiliadau hylendid dwylo gan staff yr Adran Achosion Brys bob mis, a fydd bellach yn cael eu cwblhau bob wythnos; nid yw'r archwiliadau wythnosol gofynnol yn yr Adran Achosion Brys wedi'u cwblhau'n gadarn. Mae arweinwyr bellach wedi cael eu nodi a bydd hyfforddiant yn cael ei roi i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau bob wythnos. Bydd cydymffurfedd yn cael ei fonitro gan y tîm atal a rheoli heintiau.
- Mae'r uwch-nyrs, y tîm atal a rheoli heintiau a'r tîm cadw tŷ wedi adolygu'r adran i sicrhau bod hylif diheintio dwylo ar gael ar draws yr adran. Mae peiriannau diheintio ychwanegol wedi'u gosod yn yr ardaloedd a nodwyd.
- Peiriannau cyflenwi priodol. Bydd y rhain yn cael eu monitro gan y tîm cadw tŷ ac o fewn fframwaith archwilio dyddiol y nyrs â gofal
- Mae cydymffurfedd â'r canllawiau cyfarpar diogelu personol priodol wedi'i atgyfnerthu i'r timau clinigol mewn sawl ffordd h.y. y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, cyfarfodydd diogelwch dyddiol, cyfarfodydd ymgysylltu â staff.
- Mae'r adolygiad boreol dyddiol gan y nyrs â gofal a gwiriad yn y prynhawn gan un o'r uwch-arweinwyr hefyd yn atgyfnerthu'r gofyniad i gynnal y safonau priodol ar gyfer cyfarpar diogelu personol, gan annog y tîm i herio eraill os nad yw safonau'n dilyn yr arweiniad.
- Gosod arwyddion a phosteri priodol i sicrhau bod y staff a'r ymwelwyr yn ymwybodol o'r gofynion o ran cyfarpar diogelu personol yn yr adran.

Mae'r tîm wedi comisiynu cwmni i osod arwyddion trwy gydol yr adran a safle'r ysbyty.

- Mae'r holl offer sydd ei angen ar gyfer ystafell frysbenneu COVID-19 wedi cael ei adolygu (16/09/21) a'i labelu, gan sicrhau nad yw'r offer yn cael ei dynnu o'r ardal. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n ddyddiol gan y nyrs â gofal.
- Mae'r templed cyfredol yn sgil y rhaniad yn yr ystafell aros wedi cael gwared ar argaeledd dau doiled ychwanegol ar gyfer man aros mân anafiadau. Er bod gwaith yn mynd rhagddo gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â llif priodol y cleifion yn unol â gofynion COVID-19, dim ond un toiled sydd yn y man hwn o hyd. Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod nad yw'r cyfluniad cyfredol mewn perthynas â chyfleusterau toiled yn addas i ddiwallu anghenion adran brysur.
- Cwblhau'r gwaith llwybr fydd y llwybr i ddatrys hyn a bydd y dyddiad ar gyfer gweithredu'r gwaith i'r man mân anafiadau'n cael ei gadarnhau ar ôl cytuno ar y llwybr.
- Er mwyn sicrhau bod y toiled yn lân a'i fod yn cael ei wirio'n rheolaidd, mae'r tîm domestig bellach yn bresennol yn yr adran 24/7 a bydd yn goruchwyllo'r toiled a'r ystafell aros bob awr i sicrhau y cynhelir safonau glendid. Mae hyn yn gynydd sylweddol mewn adnoddau glanhau.

Diweddariad Rhagfyr 2021

- Mae rhaglen wella Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cynnwys yr Adran Achosion Brys a'r theatrau a ffrwd waith prosiect llif newydd o dan ddull 'un' rhaglen. Mae'r rhaglen, wrth iddi aeddfedu a symud i ffrwd o gamau gweithredu a gweithgareddau diagnostig ar unwaith, yn cael ei hailosod i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol a chyflenwi gweithgareddau gwella.
- Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu'r rhaglen gan y Prif Swyddog Gweithredu ym mis Medi 2021, a arweiniodd at newidiadau i gryfhau trefniadau goruchwyllo, craffu a sicrwydd y rhaglen er mwyn sicrhau strwythurau cadarn ac eglurder rolau a chyfrifoldebau. Rheolir pob agwedd ar y rhaglen gan arweinwyr Triumvirate gydag arbenigwyr pwnc o bob rhan o'r bwrdd iechyd.
- Sefydlwyd y canlynol:
 - Bwrdd rhaglen amlddisgyblaethol misol a noddir gan weithrediaeth i fonitro cynnydd y rhaglen.

- Cyfarfod Goruchwylio'r Grŵp Ardal Integredig wythnosol i roi ystyriaeth amserol i faterion, risgiau a chynllunio camau gweithredu ac i yrru cyflymder y rhaglen tra'n cefnogi'r timau gweithredol gyda'r ddarpariaeth.
 - Cyfarfodydd tîm prosiect gwella wythnosol ar gyfer yr Adran Achosion Brys a'r theatrau gyda chymorth tîm y rhaglen.
 - Hwb Gwella i arwain y rhaglen i ddarparu arbenigedd penodol i wella'r cymorth sydd ar gael i'r timau cyflawni gweithredol. Mae strwythur yr hwb yn cynnwys adnoddau staff sydd wedi'u rhyddhau i flaenoriaethu darpariaeth y rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllunio, Rheoli Rhaglenni, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Cyfathrebu a Gwella. Mae'r Hwb yn caniatáu ystyriaeth ehangach o ddibyniaethau ar draws y system.
- Yn ychwanegol:
 - Mae taenlen gadarn i olrhain y cynllun gweithredu wedi'i datblygu i fonitro camau gweithredu ar draws y rhaglen. Mae'r offeryn hwn yn cefnogi'r trylwyredd o ran llywio'r gwaith o gyflawni camau gweithredu a hefyd sicrhau tryloywder a sicrwydd i Fwrdd y Rhaglen a'r sefydliad ehangach.
 - Mae dangosfwrdd perfformiad wedi'i ddatblygu i ganiatáu'r gwaith o fonitro dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cyd-fynd ag amcanion y rhaglen.
 - Mae'r trefniadau partneriaeth gyda Gwelliant Cymru a'r Uned Gyflawni yn cael eu cryfhau i sicrhau bod y cymorth yn cael ei deilwra i fodloni anghenion Rhaglen Wella Ysbyty'r Tywysog Siarl.
 - Mae Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys Cynllun Rheoli Risg, sy'n ystyried trefniadau llywodraethu ar draws y Grŵp Ardal Integredig a'r bwrdd iechyd ehangach, wedi'i ddatblygu yn unol â'r dull a'r fethodoleg sefydliadol.
 - Mae adroddiadau amserol a rheolaidd yn sail i'r rhaglen gan gynnwys adroddiadau uchafbwyntiau wythnosol ar oedi o ran cynnydd, risgiau, materion a chyflawniadau a gyflwynir i Fwrdd Arweinyddiaeth Strategol y bwrdd iechyd. Mae'r gwaith o adrodd wedi parhau i'r Pwyllgor Ansawdd a

Diogelwch a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd i'r Cyngor Iechyd Cymuned⁶.

- Penodwyd Cyfarwyddwr Gwella allanol ac adolygodd ddatblygiad y rhaglen.
- Er mwyn cydnabod bod y gwaith gwella yn gyfrifoldeb i bawb, mae nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â staff wedi'u cynnal a mae mecanweithiau wedi'u mabwysiadu ar lefel y Grŵp Gwasanaethau Clinigol i hwyluso syniadau gan staff y rheng flaen. Mae hyn wedi'i gefnogi gan weithgareddau y tîm cyfathrebu gan gynnwys cynhyrchu cylchlythyrau'r Adran Achosion Brys.
- Mae canfyddiadau'r archwiliad, a gwblhawyd mewn perthynas â Safonau y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, bellach wedi'u trosi'n gynllun gweithredu manwl a'u hymgorffori yng nghynllun Rhaglen Wella'r Grŵp Ardal Integredig.
- Roedd yr argymhellion canlyniad craidd yn ymwneud â'r meysydd canlynol: Llwybr claf drwy'r Adran Achosion Brys, gofyniad i'r staff gael eu hyfforddi mewn meysydd penodol e.e., dementia, diogelu. Nodi ac adolygu polisïau a pherchenogaeth goruchwyllo polisi priodol yn yr adran. Ymhellach i'r argymhellion hyn, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen a gychwynnwyd ar 29/11/21 i adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r Adran Achosion Brys. Cefnogir hyn gan gydweithwyr nyrsio corfforaethol.
- Mae sesiynau hyfforddiant dementia wedi'u cynnal gyda chydymffurfedd wedi'i nodi ar 93.44% ar 25/11/21, ac mae cynllun gweithredu pellach ar waith i nodi'r unigolion sy'n weddill.
- Adroddodd cydymffurfedd â hyfforddiant diogelu (oedolion lefel 2) fel 75.47%, i fyny o 46.6% y mis blaenorol.
- Mae darn o waith â ffocws wedi'i symud ymlaen i adolygu ymwybyddiaeth y staff o weithredoedd a chanllawiau ynghylch polisïau a gweithdrefnau iechyd meddwl.

⁶<https://bwrddcic.gig.cymru/yr-hyn-a-wnawn/>

- Cynhaliwyd cyfarfod Ansawdd a Diogelwch cyntaf yr Adran Achosion Brys ar 24/11/21 a bydd yn cael ei gynnal bob mis.
- Rhaglen addysgol ar gyfer dechreuwyr newydd – Datblygwyd cynnig ar gyfer Uwch Nyrs newydd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol yr Adran Achosion Brys. Mae'r Nyrs Ymarfer Proffesiynol a Sicrwydd Ansawdd a'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol a Sicrhau Ansawdd wrthi'n datblygu fframwaith safonol i'w sefydlu ar draws y bwrdd iechyd.
- Mae hyrwyddwr gwisgo a diosg penodol bellach wedi'i nodi i ddatblygu hyfforddiant pellach i'r tîm gyda chynllun i gyflwyno sesiynau hyfforddi awr o hyd, yn cynnwys slotiau 15 munud dros yr awr ar wisgo a diosg i'r staff.
- Mae'r tîm atal a rheoli heintiau wedi adolygu gofyniad yr adran am ystafell wisgo a diosg bwrpasol ac wedi cynghori yn erbyn hyn. Gwnaethant roi arweiniad cam wrth gam i'r staff ar y weithdrefn gwisgo a diosg briodol yn dibynnu ar senarios gwahanol.
- Mae'r gwiriwr symptomau yn parhau i gael ei leoli wrth fynedfa'r adran 24/7 a chafwyd adroddiadau cadarnhaol gan y cleifion. Mae'r trefniant hwn hefyd wedi'i osod wrth fynedfa'r ambiwlans sy'n helpu i adnabod statws COVID-19 yn gynnar.
- Cyflwynwyd archwiliad atal a rheoli heintiau amgylcheddol dyddiol i fonitro cydymffurfedd o fewn y meysydd canlynol: arwyddion COVID-19, llwybrau priodol yn seiliedig ar statws COVID-19 claf, glendid amgylcheddol, offer a storio, gwastraff. Rhennir y cyfraddau cydymffurfio â'r Tîm Gweithredol bob dydd at ddibenion goruchwyllo. Adroddir bod y cydymffurfedd ar 03/12/21 yn 90%, ar ôl gweld gwelliant cyson ers 20/09/21 yn adrodd ar gydymffurfedd o 46%.
- Er mwyn cefnogi arweinyddiaeth weladwy, mae'r uwch dîm rheoli yn cerdded o gwmpas yr adran bob dydd i gynnal gwiriad arweinwyr pwrpasol.
- Mae rota gwiriad arweinwyr pwrpasol wedi'i datblygu ac mae unigolion wedi'u neilltuo. Mae'r gwiriadau arweinwyr pwrpasol yn canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol; staff, yr amgylchedd, cleifion ac unrhyw gamau a gymerwyd. Mae unrhyw themâu sy'n codi dro ar ôl tro a nodir yn ystod y rowndiau hyn yn cael eu dogfennu a'u dosbarthu drwy neges e-bost wythnosol.
- Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r oriau contract glanhau sy'n cyd-fynd ag ardaloedd yr Adran Achosion Brys i sicrhau bod y toiledau'n cael eu glanhau a'u gwirio'n rheolaidd. Nodwyd bod angen cyflenwi

gwasanaethau domestig yr Adran Achosion Brys o ganol nos tan 6.00am. Ariennir y gwasanaeth ychwanegol hwn gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Dechreuodd y gwaith sifft ychwanegol hwn ddydd Llyn 13 Rhagfyr. Lanswyd y gwasanaeth hwn cyn recriwtio 6 aelod o staff yn llawn. Mae tri aelod o staff domestig yn y swydd, wedi'u hyfforddi ac yn barod ac mae dyddiadau cychwyn wedi'u nodi ar gyfer dau aelod arall o staff. Disgwylir y bydd tîm llawn o staff domestig ar waith erbyn diwedd mis Ionawr 2022. Er bod y tîm domestig wedi cael amserlen lanhau, mae'r staff yn cael eu cyfarwyddo'n benodol gan y nyrs â gofal yn yr Adran Achosion Brys yn ôl yr angen.

- Mae rhoi goruchwyliwr domestig ar rota ar alwad o 8.00pm i 6:30am ar gyfer yr adegau pan nad oes presenoldeb ffisegol ar y safle hefyd wedi'i gynllunio fel cynllun peilot.
- Prynwyd posteri i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gofynion cyfarpar diogelu personol yn yr adran a darparwyd arweiniad cam wrth gam ychwanegol gan y tîm atal a rheoli heintiau.
- Sefydlwyd Sianel Timau penodol yr Adran Achosion Brys ac mae'r pwysigrwydd o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn gywir wedi'i gyfleu. Rhannwyd gwybodaeth bellach drwy gyfarfodydd Efydd misol, sesiynau briffio'r staff, cylchlythyr staff a thudalen Facebook y staff.
- Prynwyd arwyddion a phosteri priodol er mwyn sicrhau bod y staff a'r ymwelwyr yn gwbl ymwybodol o'r gofynion mewn perthynas â chyfarpar diogelu personol. Mae'r arwyddion penodol yn rhoi manylion am y meysydd canlynol:
 - Dim Camdriniaeth
 - Ardal risg uchel
 - Rhaid i bob aelod o'r cyhoedd a'r staff ymolchi eu dwylo rhwng pob ardal
 - Sicrhewch eich bod yn gwisgo masg wyneb gradd ysbyty a'ch bod yn diheintio'ch dwylo cyn mynd i mewn
 - Uned Achosion Brys
 - Asesiad a thriniaeth
 - Aros am adolygiad
 - Ystafell aros yr Adran Achosion Brys
 - Prif dderbynfa ac ystafell aros
 - Ardal sgrinio y ganolfan gofal brys.
- Cafwyd diogelwch ychwanegol yn ystod cam pedwar sydd wedi'i leoli wrth fynedfeydd yr ysbyty. Mae hyn wedi darparu pwynt gwirio i sicrhau mai'r unig unigolion sy'n dod i mewn i'r ysbyty yw naill ai aelodau staff neu gleifion sy'n mynychu apwyntiadau.

- Mae'r achos busnes ar gyfer gofynion y gweithlu nyrsio wedi'i gwblhau ac yn aros am gymeradwyaeth derfynol gan y bwrdd iechyd. Un adnodd penodol sy'n rhan o'r achos busnes yw rôl Uwch Nyrs yr Adran Achosion Brys ar gyfer Datblygiad Proffesiynol.
- Mae absenoldebau a'r defnydd o staff asiantaeth yn parhau i gael eu monitro'n agos. Mae cyfarfodydd dyddiol Safe-2-Start wedi bod ar waith ers mis Tachwedd 2021 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae presenoldeb yn cynnwys Pennaeth Llif Cleifion, y Pennaeth Nyrsio, Rheolwyr Ward, Nyrsys Arweiniol ac Uwch Nyrsys. Nod y cyfarfod yw nodi'r sefyllfa staffio ar gyfer y diwrnod o fewn yr ysbyty, gan ganolbwyntio ar alw'r Adran Achosion Brys a metrigau ansawdd a diogelwch allweddol sy'n ymwneud â gofal cleifion.
- Yn ystod y cyfarfod, mae'r Rheolwyr Wardiau a'r Uwch Nyrsys yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys heriau staffio i gefnogi unrhyw adrannau lle mae'r angen mwyaf a symud staff yn unol â hynny i sicrhau bod wardiau ac adrannau mewn sefyllfa gychwynnol ddiogel.
- Trwy'r cyfarfodydd Safe-2-Start, mae wardiau gan gynnwys yr Adran Achosion Brys bellach hefyd yn rhoi diweddariad dyddiol o absenoldebau'r staff oherwydd COVID-19 gan nodi diwrnodau chwech a saith o'r cyfnod ynysu er mwyn sicrhau y gellir cynllunio ymlaen llaw a nodi dyddiadau dychwelyd i'r gwaith.
- Er mwyn cryfhau'r ffocws ar y gweithlu ymhellach, bydd y Dangosfwrdd Perfformiad a ddatblygwyd ar gyfer y rhaglen yn goruchwyllo ac yn monitro metrigau allweddol ar lefel y gwasanaeth, y rhaglen a'r bwrdd gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag absenoldebau, swyddi gwag ac adolygiad o ddatblygiad a pherfformiad.
- Mae metrigau sy'n ymwneud â digwyddiadau, cwynion a phryderon hefyd wedi'u cynnwys ar y Dangosfwrdd Perfformiad.
- O fewn ôl troed gwreiddiol yr Adran Achosion Brys, roedd ystafell aros yr Adran yn gwahanu cleifion COVID-19 a chleifion nad ydynt yn gleifion COVID-19 gan raniad. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd gweld y cleifion gystal, gan gynyddu risg y claf o niwed, am nad oedd y cleifion hyn yn cael eu harsylwi a'u monitro'n effeithiol.
- Mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Llwybrau Gwahanu COVID-19 newydd ynghyd â hyfforddiant baner goch ychwanegol i dderbynyddion wedi lliniaru risg y cleifion o niwed. Yn ogystal â hyn, mae'r cleifion wedi parhau i gael eu sgrinio pan fyddant yn cyrraedd y drws blaen. Mae'r tîm sgrinio yn cynnwys nyrs gymwysedig, gweithiwr cymorth gofal iechyd ac aelod o staff diogelwch. Mae'r broses yn

defnyddio rhestr wirio safonol o gwestiynau i benderfynu a yw'r claf yn un yr amheuir bod COVID-19 ganddo ai peidio. Wedyn, caiff y cleifion eu ffrydio i'r man priodol - llwybr 1 (porffor) neu lwybr 2 (ambr).

- Yn ogystal â sgrinio'r drws blaen, rydym hefyd wedi gweithredu proses sgrinio mynedfeydd yr ambiwlansys. Mae'r adnodd sgrinio hwn yn cynnwys nyrs frysbenneu wrth fynedfa'r ambiwlans. Mae'r cleifion yr amheuir bod COVID-19 ganddynt yn cael eu trosglwyddo ar unwaith i'r man anafiadau difrifol (porffor) ar gyfer brysbenneu ac asesu. Mae'r cleifion nad ydynt yn gleifion COVID-19 (ambr) yn cael eu brysbenneu ar gefn yr ambiwlans ac os oes angen Electrocardiogram (ECG)⁷, mae'r nyrs frysbenneu yn cyfathrebu trwy dderbynnydd llaw i gysylltu â'r Nyrs â Gofal am y man anafiadau difrifol ambr i drefnu bod y claf yn cael ei drosglwyddo i'r ystafell frysbenneu ar gyfer ECG ac wedyn ei ddadlwytho os yw'n bosibl.
- Mae cardiau gweithredu wrth bob mynedfa sy'n cynnwys gwybodaeth i'r staff am brosesau atal a rheoli heintiau.
- Mae'r larwm cynnwrf yn caniatáu ymateb cyflym i ddigwyddiad o drais ac ymosodedd, ynghyd â phresenoldeb staff diogelwch wrth y drws blaen. Caiff unrhyw ddigwyddiadau eu hadrodd a'u monitro drwy'r system Datix ac ymchwilir iddynt er mwyn nodi unrhyw dueddiadau.
- Mae'r gloch alw frys bellach wedi'i gosod y tu ôl i ddesg y dderbynfa i staff y dderbynfa ei thynnu os bydd angen iddynt hysbysu'r tîm meddygol/nyrsio o argyfwng meddygol yn yr ystafell aros. Yn ogystal â hyn, mae nyrs gofrestrdig bellach yn gweithio yn yr ystafell frysbenneu (mae'r ystafell hon yn union oddi ar y man aros). Rhoddir goruchwyliaeth glinigol bellach i'r cleifion yn yr ystafell aros gan y gwiriwr symptomau, y nyrs gofrestrdig a'r nyrs frysbenneu. Yn ystod y

⁷ Mae electrocardiogram (ECG) yn brawf syml y gellir ei ddefnyddio i wirio rhythm a gweithgaredd trydanol eich calon. Caiff synwryddion eu glynu ar y croen i ganfod y signalau trydanol a gynhyrchir gan eich calon bob tro y bydd yn curo. Mae'r signalau hyn yn cael eu recordio gan beiriant ac yn cael eu harchwilio gan feddyg i weld a ydynt yn anarferol. Efallai y bydd arbenigwr y galon (cardiolegydd) neu unrhyw feddyg sy'n meddwl bod gennych broblem gyda'ch calon, gan gynnwys eich meddyg teulu, yn gofyn am ECG. Gall y prawf gael ei gynnal gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig mewn ysbyty, clinig neu yn eich meddygfa.

gwaith brysbennu, mae'r gwiriwr symptomau yn darparu trosolwg ac i'r gwrthwyneb.

- Ar ôl gosod y cleon diogelwch magnetig, cydnabuwyd bod angen gallu eu datgloi mewn digwyddiad lechyd a Diogelwch. Mae hyn wedi cael sylw - pan gaiff y cleon eu datgloi, mae larwm 'sgrech' yn rhybuddio'r tîm y bu toriad ar system. Mae digwyddiad a adroddwyd gan Datix yn cael ei gynhyrchu os bydd y larwm yn canu. Ni adroddwyd unrhyw achos o doriad hyd yn hyn.
- Gyda datblygiad a gweithrediad y Llwybrau Gwahanu COVID-19 newydd, gwnaed newidiadau i ymgorffori pwyntiau mynediad ychwanegol i'r cleifion sy'n mynychu'r Adran Achosion Brys. Mae trefniadau ar gyfer cynhyrchu arwyddion ar waith i'w gosod wrth y ddwy fynedfa i atal y staff rhag mynd i mewn i'r Adran Achosion Brys oni bai bod ganddynt reswm sy'n ymwneud â'r gwaith. Mae mesur dros dro o gyfathrebu ar unwaith wedi'i ddsbarthu i atgyfnerthu'r neges i'r staff i drin yr Adran Achosion Brys fel amgylchedd clinigol a lleihau nifer yr ymwelwyr yn yr ardal hon gymaint â phosibl.
- Mae'r gwaith o sgrinio cleifion wrth iddynt gyrraedd y drws blaen (mynedfa'r man mân anafiadau) wedi parhau. Mae'r ardal sgrinio'n cynnwys nyrs gymwysedig, gweithiwr cymorth gofal iechyd ac aelod o staff diogelwch sydd wedi'u lleoli yng nghyntedd gwydr mynedfa mân anafiadau'r Adran Achosion Brys er mwyn sgrinio'r cleifion yn erbyn rhestr wirio y cytunwyd arni i benderfynu a yw'r claf yn un yr amheuir bod COVID-19 ganddo ai peidio Wedyn, caiff y cleifion eu cyfeirio at y manau priodol. Caiff cleifion a nodwyd yr amheuir bod COVID-19 ganddynt eu hebrwng i'r man priodol, gan leihau'r risg i'r cleifion a'r staff. Mae nyrs frysennu sgrinio ychwanegol hefyd wedi'i chyflwyno wrth fynedfa'r ambiwlansys. Defnyddir trosglwyddyddion llaw i gysylltu â'r nyrs â gofal i gydlynu symudiad y cleifion, gan leihau symudiadau diangen o fewn yr adran, gan leihau'r risg i bawb o ganlyniad.
- Mae'r Llwybrau Gwahanu COVID-19 newydd bellach ar waith. Mae'r llwybr newydd yn darparu'r gwelliannau canlynol i gefnogi'r gwaith o leihau risg i'r cyhoedd ac i'r staff:
 - Gofod dadlwytho Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlanys Cymru (WAST) er mwyn trosglwyddo claf nad amheuir bod COVID-19 ganddo i ardal briodol.
 - Llwybr i'r cleifion yr amheuir bod COVID-19 ganddynt ar gyfer anafiadau difrifol a thriniaeth dydd (porffor).
 - Llwybr i'r cleifion nad amheuir bod COVID-19 ganddynt ar gyfer anafiadau difrifol a thriniaeth dydd (ambr).

- Man sgrinio nyrsys wrth bob mynedfa.
 - Ardal gyrraedd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.
 - Bydd cleifion meddygon teulu yn cael eu ffrydio i'r llwybr priodol drwy'r rheolwr gwelyau neu'r nyrs sgrinio yn seiliedig ar symptomau. Byddai gofal nyrsio'r cleifion hyn yn cael ei wneud gan y staff nyrsio a neilltuwyd i ffrwd benodol. Yn glinigol, bydd llwybr ar wahân ar gyfer y claf sy'n aros i gael ei weld h.y. ni fydd yn cael ei weld gan feddyg yr Adran Achosion Brys yn gyntaf. Fodd bynnag, mae angen cynnal arsylwadau ar adeg y brysbennu.
- Mae'r newid hwn yn y llwybr yn golygu bod toiledau ar gael i'r cleifion.
 - Mae'r Llwybr Pediatrig yn profi i fod yn un o'r meysydd anoddaf i'w ddatrys oherwydd y cymhlethdodau. Er mwyn cydnabod hyn, sefydlwyd gweithgor o dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredu sy'n cynnwys clinigwyr ar draws yr Adran Achosion Brys a'r Ardal Bediatrig, i ddatblygu cynllun ar unwaith a chynllun yn y tymor hwy.
 - Nid yw ymdrechion cychwynnol i greu modelau llwybr ar gyfer y cleifion pediatrig wedi bod yn effeithiol. Er y bu enghreifftiau o gydweithio, bu heriau hefyd. Mae'r trafodaethau i wireddu'r cynllun arwain wedi'i ddatblygu yn parhau drwy'r gweithgor.
 - Penodwyd Nyrs Bediatrig band 7 yr Adran Achosion Brys a bydd yn dechrau ddiwedd mis Ionawr 2022.
 - Cyflwynwyd archwiliad atal a rheoli heintiau amgylcheddol dyddiol i fonitro cydymffurfedd o fewn y meysydd canlynol: arwyddion COVID-19, llwybrau priodol yn seiliedig ar statws COVID-19 claf, glendid amgylcheddol, offer a storio, gwastraff. Rhennir y cyfraddau cydymffurfio â'r tîm gweithredol bob dydd at ddibenion goruchwyllo. Adroddir bod cydymffurfedd ar 3/12/21 yn 90%, ar ôl gweld gwelliant cyson ers 20/09/21 lle roedd cydymffurfedd yn 46%.
 - Gyda'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Llwybrau Gwahanu COVID-19 newydd, prynwyd monitor siwgr gwaed ychwanegol i sicrhau bod offer yn aros yn ei ardal benodol gan leihau'r risg o halogi. Caiff hyn ei fonitro ymhellach bob dydd gan y nyrs â gofal.
 - Yn sgil datblygu a gweithredu'r Llwybrau Gwahanu COVID-19 newydd, tynnwyd y rhaniad, gan agor yr ystafell aros i'r ôl troed gwreiddiol, a chaniatáu i'r cleifion yn ardal aros triniaeth ddydd (mân anafiadau) ddefnyddio'r tri thoiled ar wahân.

- Gwnaed adolygiad pellach o oriau'r contract glanhau sy'n cyd-fynd ag ardaloedd yr Adran Achosion Brys i sicrhau bod y toiledau'n cael eu glanhau a'u gwirio'n rheolaidd. Nodwyd bod angen cyflenwi Gwasanaethau Domestig yr Adran Achosion Brys o ganol nos tan 6.00am. Ariennir y gwasanaeth ychwanegol hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Dechreuodd y gwaith sifft ychwanegol hwn ddydd Llun 13 Rhagfyr. Lansiwyd y gwasanaeth hwn cyn recriwtio chwech aelod o staff yn llawn. Mae tri aelod o staff domestig yn y swydd, wedi'u hyfforddi ac yn barod ac mae dyddiadau cychwyn wedi'u nodi ar gyfer dau aelod arall o staff. Disgwylir y bydd tîm llawn o staff domestig ar gael erbyn diwedd mis Ionawr 2022.
- Er bod y tîm domestig wedi cael amserlen lanhau, mae'r staff yn cael eu cyfarwyddo'n benodol gan y nyrs â gofal yn yr Adran Achosion Brys yn ôl yr angen.
- Bwriedir hefyd gosod rota ar alwad goruchwylwyr domestig rhwng 8pm a 6:30am i gyflenwi'r adegau pan nad oes presenoldeb ffisegol ar y safle.

Yr hyn a welsom yn yr arolygiad dilynol

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu a chynnal mwyafrif y gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn arolygiad diwethaf yr adran sy'n ymwneud ag ansawdd profiad y claf (fel y manylir uchod). Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad. Roedd y cleifion a gyfrannodd at yr arolygiad yn hapus ar y cyfan gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd.

Cadw'n iach

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion cleifion mewn modd synhwyrol a phroffesiynol. Gwnaeth y cleifion y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol am y ffordd yr oedd staff yn cyflawni eu dyletswyddau.

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos drwy'r Adran Achosion Brys ynghylch COVID-19, rheoli heintiau a sut i atal germau a heintiau rhag lledaenu. Roedd y

rhain yn cynnwys cyfarwyddiadau clir a hawdd eu darllen ynghylch ymolchi dwylo yn effeithiol.

Gofal ag urddas

Gwelsom welliant sylweddol yn y ffordd yr oedd urddas y cleifion yn cael ei hybu yn yr Adran Achosion Brys o gymharu â'r hyn a welsom yn ystod yr arolygiad blaenorol.

Roedd yr amgylchedd yn yr adran yn lân ac yn daclus, gan ychwanegu at yr ymdeimlad o lesiant y cleifion. Fodd bynnag, canfuom fonion sigarêts wedi'u taflu yn union y tu allan i fynedfeydd yr adran ac roedd rhai teils ar goll o ran o'r nenfwd crog ger y brif fynedfa i'r Adran Achosion Brys. Mae hwn yn hyll ac nid yw'n rhoi argraff gyntaf dda i'r cleifion a'r ymwelwyr.

Gwelsom y staff yn bod yn garedig ac yn barchus tuag at y cleifion a gwelsom ymdrechion yn cael eu gwneud i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu cymorth ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal.

Fodd bynnag, canfuom nad oedd y sgriniau plastig/persbecs clir, a ddefnyddir yn y ciwbiclau a rennir yn y man triniaeth ddydd ambr, yn cynnig lefelau digonol o breifatrwydd i'r cleifion. Hefyd, dylid ystyried cyfyngu ar nifer y cleifion sy'n cael eu lletya yn y ciwbiclau ar unrhyw un adeg er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Gwelsom glaf gwrywaidd a oedd yn fygythiol yn cael ei letya wrth ymyl cleifion sy'n agored i niwed a oedd yn amlwg yn anghyfforddus oherwydd ei bresenoldeb a'i ymddygiad. Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro cymysgedd y cleifion sy'n cael eu lletya yn y ciwbiclau er mwyn sicrhau nad yw'r cymysgedd yn rhoi'r cleifion mewn perygl o niwed nac yn achosi trallod.

Gwelwyd y staff yn trin ei gilydd mewn modd cefnogol a pharchus.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Sicrhau bod yr holl fynedfeydd i'r adran yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus.
- Adolygu'r defnydd o sgriniau plastig/perpecs yn y ciwbiclau a rennir yn y man triniaeth ddydd er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael cynnig lefelau digonol o breifatrwydd. Dylid ystyried cyfyngu ar nifer

y cleifion sy'n cael eu lletya yn y ciwbiclau ar unrhyw un adeg er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas.

- Monitro cymysgedd y cleifion sy'n cael eu lletya yn y ciwbiclau er mwyn sicrhau nad yw'r cymysgedd yn rhoi cleifion mewn perygl o niwed nac yn achosi trallod.

Gwybodaeth i gleifion

Mae hysbysfyrdau wedi'u darparu mewn mannau amlwg o fewn yr adran sy'n arddangos gwybodaeth am COVID-19 ac yn egluro'r hyn y dylai'r cleifion ei ddisgwyl o ran eu triniaeth a'u taith drwy'r adran.

Gosodwyd system cyhoeddi llais wedi'i recordio ymlaen llaw sy'n chwarae cerddoriaeth gefndirol ac yn rhoi cyngor, yn Gymraeg a Saesneg, ar COVID-19, ymolchi dwylo a rhybuddion am gam-drin yn erbyn y staff. Cafodd y system ei sefydlu hefyd i gyhoeddi amseroedd aros. Fodd bynnag, nid oedd y swyddogaeth benodol hon yn gweithio ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad. Gwnaethom dynnu sylw un o uwch reolwyr yr Adran Achosion Brys at y mater a gymerodd gamau i ddatrys y mater.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd tawel ac urddasol.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn cymryd amser i egluro pethau iddynt. Fodd bynnag, dywedodd un claf y siaradwyd ag ef wrthym ei fod weithiau'n cael gwybodaeth anghyson gan y staff, gyda nyrs yn dweud un peth wrtho a'r meddyg yn dweud rhywbeth gwahanol wrtho.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn rhoi gwybodaeth gywir a chyson i'r cleifion am eu gofal.

Gofal amserol

Gwelsom fod llif cleifion drwy'r rhan fwyaf o ardaloedd yr adran wedi gwella.

Roedd y gwaith diweddar o ffurfio ardal triniaeth ddydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cleifion a oedd yn derbyn gofal yn y coridorau. Fodd bynnag, roedd

dryswch ymhlith rhai aelodau o'r staff ynghylch y defnydd arfaethedig o'r ardal hon ac roedd y staff sy'n gweithio yn yr ardal hon yn teimlo dan bwysau ychwanegol. Dywedodd y staff wrthym fod yr ardal hon yn aml yn orlawn gyda'r cleifion yn aros am amser hir i gael eu derbyn i wardiau ysbyty. Er nad oedd yn orlawn yn ystod yr ymweliadau arolygu, gwnaethom nodi bod un claf wedi bod yn aros am driniaeth ers dros 48 awr.

Gwnaethom awgrymu y dylid ystyried llunio gweithdrefn weithredu safonol sy'n nodi sut y bydd yr ardal hon yn cael ei defnyddio. Dylai'r weithdrefn weithredu safonol, ymhlith materion eraill, nodi paramedrau anghenion gofal y cleifion sydd i'w lletya, yr uchafswm amser a ragwelir ar gyfer lletya'r cleifion yn yr ardal hon a'r disgwyliadau ar y staff o ran arsylwi ar y cleifion.

Gwelsom fod yr holl gleifion yn cael eu brysbennu'n briodol. Fodd bynnag, canfuom fod angen mwy o nyrsys brysbennu profiadol yn yr adran i gyflenwi pob sifft.

Roedd y trefniadau goruchwylio a monitro cleifion yn y brif ystafell aros wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, canfuom y gellid gwella hyn ymhellach pe bai'r nyrsys brysbennu yn gwneud sgan gweledol o'r cleifion yn yr ystafell aros wrth alw'r cleifion i'r ystafell frysennu.

Nid oedd unrhyw faterion sylweddol o ran symud y cleifion o'r ambiwlansys i'r adran yn ystod yr arolygiad.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Llunio gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer yr ardal triniaeth ddydd yn nodi sut y caiff yr ardal hon ei defnyddio. Dylai'r weithdrefn weithredu safonol, ymhlith materion eraill, nodi paramedrau anghenion gofal y cleifion sydd i'w lletya, yr uchafswm amser a ragwelir ar gyfer lletya'r cleifion yn yr ardal hon a'r disgwyliadau ar y staff o ran arsylwi ar y cleifion.
- Ystyried ffyrdd o wella'r gwaith o arsylwi ar y cleifion yn y brif ardal aros ac annog y nyrsys brysbennu i wneud sgan gweledol o'r ystafell aros wrth alw'r cleifion i'r ystafell frysennu.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod prosesau cynllunio gofal da ar waith ar y cyfan a oedd yn ystyried barn y cleifion ar sut yr hoffent dderbyn gofal.

Trwy ein sgysiau gyda'r staff a'n harsylwadau, gwnaethom gadarnhau bod y cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu hanghenion gofal.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn darparu gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, defnyddiwyd llenni o amgylch ardaloedd gwely/triniaeth unigol pan oedd y gofal yn cael ei ddarparu.

Canfuom fod Aseiad Galluedd Meddyliol ac aseidiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid⁸ yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd y cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarperir, trwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff.

Roedd systemau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli cwynion ac roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â Gweithio i Wella⁹.

⁸ Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n darparu modd o amddifadu rhywun o'i ryddid yn gyfreithlon naill ai mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er eu lles gorau a dyma'r ffordd leiaf rhwystrol o gadw'r unigolyn yn ddiogel rhag niwed.

⁹ Mae Gweithio i Wella yn broses ar gyfer trin cwynion, honiadau a digwyddiadau, sy'n cael eu galw gyda'i gilydd yn "bryderon". Mae hyn yn cynrychioli newid diwylliant sylweddol i'r GIG yng Nghymru yn y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o'i le, gan gyflwyno un dull cyson ar gyfer graddio ac ymchwilio i bryderon, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys yr unigolyn sy'n codi'r pryder.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu a chynnal mwyafrif y gwelliannau, sy'n ymwneud â darparu gofal diogel ac effeithiol, a bwysleisiwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad blaenorol

- Nid oedd y cleifion bob amser yn cael eu monitro ar amllder a fyddai'n nodi dirywiad a newidiadau yn eu cyflwr. Nid oedd y cleifion bob amser yn cael eu sgrinio am sepsis ac roedd yr ymateb priodol i hyn ar goll.

Pa gamau y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Mae preifatrwydd ac urddas yn yr adran yn hollbwysig a chafodd hyn ei gydnabod yn ystod yr ymweliad â'r safle. Mae sawl newid wedi cael eu gwneud i wella hwn ymhellach, gan gynnwys y canlynol:
 - Rhoi'r gorau i ddefnyddio coridor y mân anafiadau.
 - Newidiadau yn y man mân anafiadau difrifol ar gyfer triniaethau dydd i sicrhau bod pedair ardal glinigol ychwanegol briodol arall, cadeiriau cyfforddus priodol a sgriniau rhwng cleifion, ynghyd ag offer unigol i bob man i gleifion. Cwblhawyd y gwaith hwn ar 23.09.21. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion sy'n 'ffit i eistedd' yn derbyn gofal mewn amgylchedd priodol gyda goruchwyliaeth nyrs. Bydd gofal y cleifion hyn yn cael ei oruchwyllo gan nyrs â gofal ac yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd tîm trwy gydol y shift.
 - Mae'r cleifion yn derbyn gofal mewn ciwbiclau preifat yn yr adran, sy'n cynnig preifatrwydd ac urddas. Er mwyn sicrhau y gall yr adran ryddhau ambiwlans ar unwaith neu drosglwyddo/derbyn claf sâl i'r adran, mae cwbigal rhif 7 wedi'i neilltuo i fodloni'r gofyniad hwn.

- Cefnogir cyffordduswydd y cleifion yn yr adran gan y Groes Goch Brydeinig. Rydym yn darparu bwyd a diodydd poeth o dan oruchwyliaeth y nyrs â gofal i gefnogi'r cleifion sy'n derbyn triniaeth weithredol yn yr adran.
- Yn ystod cyfnodau o uwchgyfeirio, cynhelir cyfarfodydd asesiad risg sefyllfaol ychwanegol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar bryderon diogelwch, aros am welyau, a capasiti/risg yn yr Adran Achosion Brys.
- Mae cleifion sy'n aros mewn ambiwlans ar ôl cyrraedd yr ysbyty os nad oes capasiti yn yr adran yn parhau i dderbyn gofal gan griw yr ambiwlans cyn iddynt gael eu derbyn yn unol â'r weithdrefn weithredu safonol.
- Yn unol â chynllun gwella'r Adran Achosion Brys, mae cynnig i fynd i'r afael â heriau llif a gwella diogelwch yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Bydd staff Gwelliant Cymru a staff ardal Merthyr a Chynon yn cydweithio, gan rannu profiad gweithredol, arbenigedd a phrofiad o leoedd eraill i adolygu'r trefniadau cyfredol a chynllunio gwelliannau. Mae'r rhaglen hon wedi'i chreu yn dilyn cais gan Dîm Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Bydd yr hyn a ddysgir o'r rhaglen waith hon yn llywio gwelliannau eraill mewn perthynas â llif ar safleoedd aciwt eraill yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cefnogir y gwaith hwn gan Welliant Cymru.
- Mae cyfarfodydd gwelyau yn cael eu cynnal dair gwaith y dydd gyda'r cynrychiolydd eistedd ac yn cael eu rannu gyda'r uwch-dîm arwain a swyddogion gweithredol; mae'r rhain yn cael eu monitro ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg cyfan ynghyd â'r safleoedd aciwt eraill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i sicrhau bod aciwtedd yn cael ei uwchgyfeirio.
- Mae'r bwrdd iechyd yn gofyn am sawl haen o ddata i ddarparu mewnwelediad gwell i weithrediadau beunyddiol yr Adran Achosion Brys, er mwyn ei alluogi i olrhain, rhagamcangyfrif a gweld tueddiadau yn y llif gwaith o effaith uchel a deall perfformiad. Bydd datblygu dangosfwrdd i'r Adran Achosion Brys sy'n cofnodi'r ffactorau hyn yn cynorthwyo yn y gwaith o drawsnewid darpariaeth gofal o ansawdd.
- Mae llwybr gofal er mwyn rheoli a chefnogi menywod sy'n colli babi yng nghyfnodau cynnar eu beichiogrwydd yn briodol wrthi'n cael ei ddrafftio a disgwylir iddo fod ar waith erbyn 30/09/21. Bydd y llwybr hwn yn sicrhau bod menywod yn cael eu trin mewn ciwbicl preifat ac urddasol ar y ward lawfeddygol gan staff sydd â phrofiad o ofalu am fenywod sy'n cael camesgoriad.

- Mae'r gwaith o reoli cleifion y disgwylir iddynt fod yn gleifion llawfeddygol wedi cael ei adolygu ac mae llwybr gofal drafft yn y cam ymgynghori ar hyn o bryd. Bydd hyn yn sicrhau llif amserol o gleifion allan o'r Adran Achosion Brys.
- Mae llwybr wedi'i weithredu i sicrhau bod yr holl gleifion sydd wedi cael eu brysbennu'n cael eu blaenoriaethu a'u monitro yn unol â chanllawiau brysbennu Manceinion. Bydd hwn yn cael ei fonitro yn y cyfarfod dyddiol a bydd digwyddiadau oedi i ofal yn cael eu hadrodd yn y system Datix.
- Mae gan y cleifion sydd yn ardal aros COVID-19 ar hyn o bryd, nad yw o fewn golwg y nyrs gofrestrdig, broses rowndio o 30 munud ar waith i adolygu'r cleifion. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn cwmpasu'r posibilrwydd o osod cloch alw i'r cleifion ei defnyddio pe bai angen iddynt alw nyrs y tu allan i'r rowndio 30 munud.
- Mae archwiliad Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol¹⁰ diweddar wedi nodi bod siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu cwblhau i safon uchel a nodwyd gwelliant parhaus.
- Mae cydymffurfedd â'r pecyn Sepsis 6¹¹ yn cael ei fonitro bob mis gyda tharged cydymffurfio o 85%; y cydymffurfedd cymedrig cyfredol ers mis Mawrth 2021 yw 73%.
- Mae hyfforddiant unigryw ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol wedi'i drefnu i gael ei gynnal ar y dyddiadau canlynol: 28 Medi 2021, 6 Hydref 2021, 13 Hydref 2021.
- Bydd cydymffurfedd â'r pecyn Sepsis 6 hefyd yn cael ei fonitro trwy reoli digwyddiadau ac archwiliadau clinigol.

¹⁰ Offeryn a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon yw'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, sy'n gwella'r gwaith o ganfod ac ymateb i ddirywiad clinigol mewn cleifion sy'n oedolion, ac mae'n elfen allweddol o ddiogelwch cleifion a gwella canlyniadau i gleifion.

¹¹ Mae llwybr gofal a pheccyn Sepsis 6 yn ddull a argymhellir o wneud diagnosis sepsis a'i drin.

- Cwblhawyd adolygiad o ddogfennau'r Adran Achosion Brys ym mis Gorffennaf 2020 gyda chymorth y tîm gwella ansawdd a chafodd maint y dogfennau ei ad-drefnu i leihau ailadrodd. Cwblhawyd archwiliad sylfaenol o'r restr wirio diogelwch cleifion ym mis Mehefin 2021 cyn dechrau'r prawf newid yn unol â methodoleg gwella ansawdd. Mae cynnydd y rhaglen wella mewn perthynas â dogfennau'n parhau i gael ei gefnogi gan y tîm gwella ansawdd gyda diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys.
- Mae'r gwaith o gyflwyno'r siart Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ddiweddaedig yn ddiweddar wedi cael ei gefnogi a'i fonitro gan y tîm, gyda chydymffurfedd yn yr Adran Achosion Brys yn cael ei nodi yn y tri uchaf ar safle Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae perfformiad a chydymffurfedd yn cael eu monitro bob mis a rhennir y canfyddiadau gyda thîm yr Adran Achosion Brys.
- Mae safonau dogfennau yn cael eu monitro mewn sawl maes trwy'r broses lywodraethu, mewn adolygiadau o ddigwyddiadau, trwy ddadansoddi gwraidd y broblem, ar baneli craffu, a thrwy reoli pryderon. Mae gwersi a ddysgwyd a chanfyddiadau'n cael eu rhannu â'r tîm clinigol â'r tîm rheoli trwy nifer o fforymau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: cyfarfodydd arweinwyr tîm, cyfarfodydd diogelwch, cyfarfodydd llywodraethu wythnosol y Grŵp Gwasanaethau Clinigol, cylchlythyr, paneli craffu ar gwympiadau a briwiau pwyso, cyfarfodydd adrannol, hyfforddiant dadansoddi gwraidd y broblem / ymchwilio i ddigwyddiadau, Cynlluniau Gwella Wardiau, Fforwm Gwranddo a Dysgu Cynllun Gweithredu.
- Mae fframwaith dysgu'n cael ei ddatblygu i'r sefydliad nodi'r holl ffynonellau dysgu a datblygu systemau cadarn i ledaenu a rhannu dysgu er mwyn gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau, ynghyd ag arloesi a gwella.
- Mae dogfennau blynyddol y staff meddygol wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar a nodwyd y canfyddiadau cadarnhaol.

Diweddariad Rhagfyr 2021

- Gyda'r pwysigrwydd parhaus a roddir ar gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion o fewn yr Adran Achosion Brys, mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud:
 - Er mwyn gwella cysur y cleifion tra eu bod yn yr adran, mae cymorth gwasanaeth y Groes Goch, sy'n darparu gofal sylfaenol a lluniaeth, yn parhau i gael ei groesawu. Mae'r

Groes Goch hefyd yn cefnogi'r gwaith o gludo ac ailsefydlu'r cleifion sydd wedi'u rhyddhau.

- Mae'r seddi metel yn yr ystafelloedd aros wedi'u hadolygu a chafwyd dyfynbris ar gyfer seddi newydd yn lle'r seddi hyn. Bydd y seddi newydd yn darparu sedd wedi'i chlustogi'n llawn a chefn i roi cysur i'r cleifion.
- Mae llwybr Gynecolleg wedi'i ddatblygu gyda datrysiad ar unwaith ar waith trwy giwbicl penodol a llwybr at wely gwarchoddedig i'r cleifion ar ward cleifion mewnol. Er bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol, cytunwyd ar gynllun datblygedig i sefydlu Uned Asesu Dydd Gynecolleg gerllaw'r Adran Achosion Brys. Mae'r trefniadau logistaidd wrthi'n cael eu cwblhau.
- Mae'r bartneriaeth â Gwelliant Cymru wedi'i chryfhau ymhellach dros y tri mis diwethaf gyda gweithgareddau penodol wedi'u cynnwys o fewn Cynllun y Rhaglen. Caiff y gweithgareddau eu monitro trwy gyfarfod Tîm Prosiect Partneriaeth Ysbyty'r Tywysog Siarl sy'n cynnwys aelodau o'r rhaglen, Gwelliant Cymru a'r Uned Gyflawni.
- Mae enghraifft o'r gweithgareddau cydweithredol wedi cynnwys Rhaglen Arweinyddiaeth trwy Toyota gyda staff o'r Adran Achosion Brys yn cymryd rhan yn y sesiynau gyda chanolbwynt hyd yn hyn ar symleiddio ac archwilio effeithlonrwydd y prosesau.
- Mae'r Uned Gyflawni hefyd yn rhan o gydweithrediad y Bartneriaeth gyda ffocws ar nodi prosesau gweithredu llif a llwybrau rhyddhau ar y safle ac yn y gymuned.
- Mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cyfarfodydd dyddiol Safe-2-Start (8.00am-8.30am) wedi bod ar waith ers mis Tachwedd 2021 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae presenoldeb yn cynnwys Pennaeth Llif Cleifion, y Pennaeth Nyrsio, Rheolwyr Ward, Nyrsys Arweiniol ac Uwch Nyrsys. Nod y cyfarfod yw nodi'r sefyllfa staffio am y dydd o fewn yr ysbyty, gan ganolbwyntio ar alw'r Adran Achosion Brys a metrigau ansawdd a diogelwch allweddol sy'n ymwneud â gofal cleifion. Yn ystod y cyfarfod, mae'r Rheolwyr Wardiau a'r Uwch Nyrsys yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys heriau staffio i gefnogi unrhyw adrannau lle mae'r angen mwyaf a symud staff yn unol â hynny i sicrhau bod wardiau ac adrannau mewn sefyllfa gychwynnol ddiogel.
- Mae Dangosfwrdd Perfformiad ar gyfer y Rhaglen wedi'i ddatblygu i fonitro effaith gweithgareddau a gwelliant gan gynnwys effaith mewn perthynas ag ansawdd, diogelwch, yr amgylchedd a'r gweithlu. Mae'r Dangosfwrdd yn ymgorffori targedau Haen 1 ynghyd â mesurau

Fframwaith Cyflawni Ansawdd yr Adran Achosion Brys a mesurau ychwanegol a nodwyd yn lleol.

- Mae Uned Asesu Llawfeddygol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys pedwar troli asesu. Y blaengynllun unwaith y daw cyfyngiadau COVID-19 i ben yw bod atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn mynd yn syth i'r Uned Asesu Llawfeddygol. Mae cynnydd pellach yn cael ei wneud i gyflogi Uwch Ymarferwyr Nyrsio i gefnogi'r Uned Asesu Llawfeddygol ac ymestyn yr Uned Asesu Llawfeddygol fel 'clinigau poeth'. Rhagwelir y bydd y clinigau poeth hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu rhyddhau a dychwelyd ar gyfer apwyntiadau. Yn ogystal â hyn, prynwyd citiau profi COVID-19 pwynt gofal cyflym ychwanegol i gyflymu'r llif i'r uned.
- Mae cofnod hyfforddiant Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar waith i fonitro darpariaeth sesiynau hyfforddi ar gyfer yr holl fandiau staff.
- Mae'r offeryn Sepsis yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae'r Adran Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd yn y broses o adeiladu profforma archwilio i'w roi ar y System Rheoli ac Olrhain Archwilio i fonitro a chefnogi gwelliant, gan ganiatáu hefyd ar gyfer dull safonol ar draws y bwrdd iechyd.
- Archwilir cydymffurfedd trwy'r tîm allgymorth a rhennir canlyniadau gyda thimau a'u trafod mewn cyfarfodydd llywodraethu i nodi unrhyw dueddiadau/gwelliannau sydd eu hangen. Mae pryderon/Digwyddiadau a chynlluniau gweithredu yn cael eu llunio ac mae cydymffurfedd yn cael ei fonitro. Cydymffurfedd gyfredol ar gyfer Adran Achosion Brys Ysbyty'r Tywysog Siarl yw 55.56% (cymedr) Ebrill - Tachwedd 2021.
- Mae'r tîm Allgymorth Gofal Critigol wedi nodi meysydd lle mae angen hyfforddiant pellach ac mewn ymateb i hynny mae'r staff wedi datblygu rhaglen i gyflwyno'r hyfforddiant canlynol: Sepsis, Difrifol wael, ALERT, Cathetr Gwythiennol Canolog (CVC) a Maeth Cyflawn drwy'r Gwythiennau (TPN) yn rheolaidd.
- Yn ogystal, darperir goruchwyliaeth bellach o gydymffurfedd Sepsis 6 i'r Rhaglen Wella drwy Ddangosfwrdd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
- O 1 Rhagfyr, gosodwyd archwiliad o restr wirio diogelwch cleifion ar system Rheoli ac Olrhain Archwilio y bwrdd iechyd cyfan. Mae hyn yn caniatáu gwaith monitro a dogfennu canlyniadau'r archwiliad yn barhaus, ynghyd â'r gallu i feincodi. Nodwyd y cynnydd canlynol mewn cydymffurfedd yn ystod haparchwiliad:

- Hydref 2021: cydymffurfedd o 12.2%
 - Ionawr 2022: cydymffurfedd o 68%
- Mae archwiliad o ddogfennau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yr Adran Achosion Brys wedi parhau i gael ei fonitro. Mae'r archwiliad hwn hefyd wedi cael ei roi ar system Rheoli ac Orlhain Archwilio y bwrdd iechyd. Adroddwyd bod cydymffurfedd ar gyfer mis Rhagfyr yn 66%.

Yr hyn a welsom yn yr arolygiad dilynol

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu ac wedi cynnal y gwelliant a amlygwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn yr arolygiad diwethaf o'r adran mewn perthynas â'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Gofal diogel

Gwelsom fod y gwaith o gyflwyno'r cyfarfodydd Safe-2-Start dyddiol, a oedd yn cael eu cynnal bob bore, yn rhoi cyfle i'r uwch reolwyr bwysleisio materion sy'n dod i'r amlwg a'u rheoli, a sicrhau bod digon o staff yn y wardiau ac adrannau amrywiol ar draws yr ysbyty. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff yn cael eu dyrannu'n effeithiol i'r ardaloedd hynny lle nodwyd diffygion neu bwysau ychwanegol ar wasanaethau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd llif cleifion trwy gydol y dydd i sicrhau bod y gwaith o reoli gwelyau yn cael ei wneud yn effeithiol a lleihau pwysau ar wardiau ac adrannau amrywiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r broses uwchgyfeirio llif cleifion.

Roedd mesurau priodol wedi'u sefydlu i wella diogelwch yr ardal bediatrig. Ar adeg yr arolygiad nid oedd nyrs bediatrig wedi'i hyfforddi ar ddyletswydd yn yr ardal bob amser, sy'n peri risg i'r cleifion a'r staff. Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi yn niweddariad mis Rhagfyr bod Nyrs Bediatrig band 7 yr Adran Achosion Brys wedi'i phenodi ac y bydd yn dechrau ar ei dyletswyddau ddiwedd mis Ionawr 2022.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd asesiadau risg ac archwiliadau clinigol cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r perygl o niwed i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr. Roedd y rhain yn cael eu hadrodd yn ffurfiol i'r uwch reolwyr.

Fodd bynnag, ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom fod nifer o gypyrddau a drysau i ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer paratoi meddyginiaethau wedi'u gadael heb eu diogelu. Gwelwyd cemegau hefyd mewn cypyrddau heb eu cloi ac ar arwynebau gwaith mewn storffeydd. Roedd yr ystafell driniaeth gên ac wyneb yn peri pryder penodol. Yn yr ardal hon, canfuom offer miniog ar arwynebau gwaith ac nid oedd cyffuriau megis anesthetig lleol ac adrenalin wedi'u storio'n ddiogel. Roedd yr ystafell hon wedi'i lleoli yn yr ardal triniaeth ddydd lle'r oedd y cleifion iechyd meddwl yn cael eu lletya. Roedd yr holl faterion hyn yn peri risg sylweddol o niwed i'r cleifion a'r staff.

Gwnaethom dynnu sylw'r Pennaeth Nyrsio at hyn a gymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

Atal niwed pwysu a niwed i feinwe

Gwelsom fod y staff yn asesu'r cleifion ynghylch eu risg o ddatblygu niwed pwysu i'w croen wrth gael eu derbyn i'r Adran Achosion Brys. Gwelsom fod y staff yn cymryd camau priodol i atal y cleifion rhag datblygu niwed pwysu a niwed i feinwe trwy ddarparu offer lleddfu pwysau a thrwy newid eu hystym yn rheolaidd.

Roedd y cleifion yn cael eu symud i droliâu, a lle bo'n bosibl i welyau, lle roedd hyn yn cael ei ystyried yn angenrheidiol yn dilyn asesiad.

Prynwyd cadeiriau gogwyddol i'w defnyddio yn yr ardal triniaeth ddydd er mwyn gwella cyfforddusrwydd y cleifion a lleihau'r risg o niwed i'r manau pwysu.

Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth a welsom o asesiadau parhaus ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn aros yn yr Adran Achosion Brys am dros 24 awr.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cynnal ac yn cofnodi asesiadau parhaus rheolaidd ac amserol o'r cleifion tra eu bod yn yr Adran Achosion Brys.

Atal cwmpiadau

O archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol, gwelsom dystiolaeth fod asesiadau risg yn cael eu cynnal i leihau'r risg o gwmpo.

Adroddwyd am gwmpiadau trwy Datix a thynnwyd sylw atynt yn y cyfarfod Safe-2-Start a gynhaliwyd bob bore.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom welliannau sylweddol yn y trefniadau atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys. Gwelwyd bod pob rhan o'r adran yn lân ac yn daclus.

Roedd cysylltiadau da gyda'r tîm atal a rheoli heintiau a chydag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro yn ddiogel er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd y staff yn ymolchi dwylo yn ôl yr angen ac roedd gorsafoddd diheintio dwylo wedi'u lleoli'n strategol ar draws yr adran i'r staff a'r ymwelwyr eu defnyddio, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Fel y soniwyd yn flaenorol, gwnaethom hefyd weld gwelliant o ran rheoli cleifion sydd wedi cael canlyniad negyddol am COVID-19 a'r cleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 gyda gwaith sgrinio priodol yn cael ei wneud wrth y brif fynedfa i'r Adran Achosion Brys a llwybrau ambr a phorffor clir ar waith. Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau'r staff y siaradwyd â nhw wrthym fod y gwelliannau a wnaed yn yr adran wedi gwneud yr amgylchedd yn fwy diogel i'r cleifion, y staff ac aelodau'r cyhoedd.

Roedd modd i gleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 a'r cleifion sydd wedi cael canlyniad negyddol am COVID-19 gymysgu yn yr ardal ddadebru o hyd. Fodd bynnag, gofynnwyd am gyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch lliniaru risgiau yn yr ardal hon. Dylid dogfennu unrhyw risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd trwy Datix neu gofrestr risg yr adran.

Fel yr oedd yn wir yn ystod yr arolygiad blaenorol, bu achosion o COVID-19 yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol. Er bod hyn yn cael ei reoli'n briodol, nid oedd proses gyson ar waith i ymchwilio i achosion o'r fath.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Monitro a dogfennu'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal ar gyfer y cleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 a'r cleifion sydd wedi cael canlyniad negyddol am COVID-19 yn yr ardal ddadebru ac uwchgyfeirio unrhyw faterion trwy Datix neu gofrestr risg yr adran.
- Sefydlu proses gyson i ymchwilio i achosion o COVID-19.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi'u hasesu. Gwelsom y staff yn cynorthwyo'r cleifion i fwyta ac yfed mewn modd urddasol heb frys. Gwelsom y staff hefyd yn rhoi anogaeth a chymorth i'r cleifion fwyta'n annibynnol.

Roedd bwyd a diodydd ar gael i'r cleifion gydag amrywiaeth o beiriannau gwerthu wedi'u lleoli yn y prif ystafell aros.

Roedd y ddarpariaeth o brydau ar gyfer y cleifion sy'n cael eu lletya yn yr ardal mân anafiadau, yr ardal anafiadau difrifol a'r ardaloedd triniaeth ddydd yn cael eu rheoli'n fwy ffurfiol a'u blaenoriaethu yn dibynnu ar yr angen a aseswyd a faint o amser yr oeddent wedi bod yn aros yn yr adran.

Roedd y prydau yn ymddangos i fod wedi'u cyflwyno'n dda ac yn flasus a dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod prosesau rheoli meddyginiaeth yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan a'u bod yn cydymffurfio.

Fodd bynnag, gwnaethom amlygu rhai materion sy'n ymwneud â storio meddyginiaeth a chafodd y rhain eu huwchgyfeirio at y Pennaeth Nyrsio a gymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Fe wnaethom hefyd amlygu problem gyda'r staff yn gorfod mynd o'r ardal triniaeth ddydd i'r ardal anafiadau difrifol er mwyn cael eitemau penodol o feddyginiaeth. Nid yn unig y mae hyn yn cymryd llawer o amser ond mae hefyd yn gadael yr ardal triniaeth ddydd yn brin o staff. Yn ogystal, mae'n cyflwyno cam ychwanegol i'r broses o roi meddyginiaeth a allai arwain at gamgymeriadau.

Roedd siartiau gweinyddu meddyginiaeth, ar y cyfan, wedi'u cwblhau'n gywir. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y cafodd un claf ocsigen ond nad oedd wedi'i ragnodi'n ffurfiol.

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu storio a'u gwirio'n briodol.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Cymryd camau i sicrhau nad oes rhaid i'r staff adael yr ardal triniaeth ddydd er mwyn cael rhai eitemau o feddyginiaeth o'r ardal anafiadau difrifol.

- Sicrhau nad yw ocsigen yn cael ei roi i'r cleifion oni bai ei fod wedi'i ragnodi'n ffurfiol.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o gyfrifoldebau diogelu a dywedodd y staff sy'n gweithio yn yr ardal bediatrig fod prosesau adrodd/atgyfeirio cadarn ar waith.

Gwnaethom awgrymu bod unrhyw gleifion sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid/Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a Diogelu yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd Safe-2-Start.

Dywedwyd wrthym fod cysylltiadau da â gwasanaethau iechyd meddwl a thimau ymyrraeth mewn argyfwng.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o offer meddygol ar gael yn yr adran a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, a chynhelir profion ar offer cludadwy yn ôl yr angen.

Roedd proses ar waith i roi gwybod am offer diffygiol neu offer sydd wedi torri a chodwyd unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd Safe-2-Start dyddiol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

Roedd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrso a'r staff meddygol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r staff yn eu gwaith.

Gwelsom fod llwybrau gofal ffurfiol yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod y staff yn perfformio ac yn cofnodi arsylwadau rheolaidd ar y cleifion yn yr ardaloedd anafiadau difrifol ambr a phorffor, a'u bod yn uwchgyfeirio materion yn briodol pan oedd cyflwr claf yn gwaethygu neu'n newid. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob

amser yn wir yn y man triniaeth ddydd lle canfuom, yn achos un claf, nad oedd symptomau sepsis wedi'u nodi'n glir, eu monitro na'u huwchgyfeirio mewn modd amserol. Roedd hyn yn golygu bod oedi cyn i'r claf gael triniaeth. Yn ogystal, ni wnaed arsylwadau drachefn dros gyfnod o chwe awr ar bedwar claf arall, a oedd yn sâl yn glinigol. Gwnaethom dynnu sylw'r Pennaeth Nyrsio at hyn a gymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater drwy gyflwyno proses well o fonitro ac arsylwi'r cleifion a oedd yn cael eu goruchwyllo gan y nyrs â gofal.

Gwelsom fod poen yn cael ei asesu a bod meddyginiaeth lleddfu poen yn cael ei rhoi yn ôl yr angen. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth wedi'i dogfennu a welsom o sgoriau poen ac effeithiolrwydd lleddfu poen yn cael eu hailasesu.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro ac yn dogfennu sgoriau poen ac effeithiolrwydd y dull lleddfu poen a roddir.

Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o nodiadau gofal cleifion a gwnaethom ganfod eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan a'u bod yn hawdd eu llywio.

Gwelwyd bod y staff yn cadw cofnodion cywir a chyfoes o'r gofal a roddwyd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu a chynnal mwyafrif y gwelliannau, sy'n ymwneud ag ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth, a amlygwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad blaenorol

- Roedd y staff yn anhapus iawn, dan straen ac yn ei chael yn anodd ymdopi â'u llwyth gwaith.
- Nid oedd y trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethu y tu allan i'r Adran Achosion Brys yn effeithiol nac yn gefnogol. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi ac na wrandewir arnynt. Roedd hyn wedi arwain at staff y rheng flaen yn teimlo'n unig ac yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi. Nodwyd materion sylweddol nad oedd y tîm arwain yn ymwybodol ohonynt. Roedd hyn yn peri risg sylweddol i ddiogelwch y cleifion a'r staff.

Pa gamau y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

- Mae gan y bwrdd iechyd fframwaith llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion sefydliadol sy'n amlinellu ei sefyllfa mewn perthynas â threfniadau llywodraethu trosfwaol.
- Mae trefniadau lleol o fewn y Grŵp Ardal Integredig a'i wasanaethau yn darparu sicrwydd trwy'r canlynol:
 - Strwythur cyfarfodydd y Grŵp Gwasanaethau Clinigol
 - Strwythur llywodraethu'r Pennaeth Nyrsio
 - Strwythur y Grŵp Ardal Integredig
 - Cymorth gweithredol ynglŷn â gwaith gwella
 - Polisi uwchgyfeirio pryderon
 - Adborth gan staff yn y cynllun ymgysylltu

- Mae adolygiadau allanol blaenorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi nodi pryderon mewn perthynas ag arweinyddiaeth a diwylliant fel pryder traws-sefydliadol ac felly maent wedi datblygu strategaeth arweinyddiaeth trwy ei weithlu a'i gydweithwyr datblygu sefydliadol. Ochr yn ochr, mae pwyslais sylweddol ar lesiant cydweithwyr ac argaeledd cymorth mewnol ac allanol. Mae'r gofynion penodol ar gyfer datblygu a chefnogi arweinyddiaeth wedi cael eu hegluro yn y cynllun gwella.
- Byddwn yn gweithio gyda'r timau er mwyn bod yn fwy clir am rolau a chyfrifoldebau unigolion yn y tîm a sut y mae'r strwythur sefydliadol ehangach yn cefnogi'r adran i ofalu am gleifion. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio sesiynau ymgysylltu a sianeli cyfathrebu presennol.
- Ar lefel y bwrdd iechyd, mae fframwaith llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion sefydliadol sy'n ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, gan arddangos sut mae'r bwrdd iechyd yn derbyn ymwybyddiaeth llinell welediad o'i wasanaethau. Mae gwelliannau i ddangosyddion perfformiad, metrigau ansawdd ac adroddiadau'r Grŵp Ardal Integredig i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi sicrhau eglurder a goruchwyliaeth well o'r ffordd y darperir gwasanaethau a phrofiad y claf. Dangosir hyn drwy'i adroddiadau i'r bwrdd. Roedd pryderon mewn perthynas ag Adran Achosion Brys Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi cael eu huwchgyfeirio cyn adolygiad AGIC ac roedd cynllun gweithredu wedi'i gytuno gyda chynnydd yn cael ei fonitro gan y tîm gweithredol.
- Yn dilyn ymweliad AGIC, mae hwn wedi cael ei wella trwy rannu canfyddiadau Ysbyty'r Tywysog Siarl ar draws y bwrdd iechyd fel sbardun ar gyfer lefelau mwy o graffu ar ein gwasanaethau yn y fframwaith presennol.
- Rydym wedi cychwyn adolygiad o'r fframwaith llywodraethu presennol, o'r ffordd y darperir gwasanaethau hyd at y bwrdd, a disgwylir i'r gwaith hwnnw gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd.
- Mae'r Grŵp Ardal Integredig yn cydnabod yr heriau presennol ac mae wedi cyflwyno rhaglen wella i ganolbwyntio ar yr Adran Achosion Brys, theatrau a wardiau a bydd hon yn cael ei defnyddio fel model gweithredu ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.
- Cyflwynwyd y cynllun gwella ar gyfer yr Adran Achosion Brys a theatrau ym mis Mehefin 2021. Cafodd cynnydd ei fonitro bob wythnos ond mae bellach wedi datblygu i gyfarfod misol rhwng cyfarwyddwyr y Grŵp Ardal Integredig a'r tîm gweithredol ac adrodd i uwch-reolwyr

trwy strwythur llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

- Mae Dogfen Cychwyn Prosiect wedi'i chynhyrchu i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach.
- Ceisiwyd sicrwydd pellach o'r wardiau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a rhoddwyd fframwaith sicrwydd ar waith i adolygu'r holl ardaloedd ward gyda chanlyniadau cadarnhaol iawn yn cael eu nodi.
- Yn sgil ôl troed yr Adran Achosion Brys, cydnabu'r cynllun gwella (Mehefin 2021) y dylai'r gofynion staffio meddygol yn y nos gael eu cynyddu un radd ganol gyda'r buddion cydnabyddedig:
 - Llif gwell
 - Cymorth i staff iau
 - Diogelwch gwell
 - Profiad gwell i'r claf
 - Amseroedd atgyfeirio gwell yn sgil trafodaethau rhwng deiliaid graddau canol
 - Perfformiad pedair awr gwell
 - Llai o oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys
- Y staff nyrsio a gyllidir yw deg nyrs gofrestredig a phedwar gweithiwr cymorth gofal iechyd; mae hyn wrthi'n cael ei adolygu yn unol ag ôl troed yr adran a'r newidiadau awgrymedig i dempled yr adran ac mae papur staffio wrthi'n cael ei ddrafftio. Oherwydd yr heriau hyn, cytunwyd ar lefelau staffio o 13 nyrs gofrestredig a phum gweithiwr cymorth gofal iechyd drwy'r amser; mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr ardal ddadebru ddwy nyrs Band 6 yn bresennol ar bob shift – nid oedd hyn yn ofyniad yn flaenorol.
- Yn yr adolygiad o'r lefelau staffio, rhoddwyd ystyriaeth i'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen yn y portffolio staffio i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir yn yr Adran Achosion Brys. Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddi wedi'i gwblhau i sicrhau bod gan yr holl staff nyrsio rhwng band dau a band saith y sgiliau a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni eu rôl.
- Mae lefelau staffio yn cael eu monitro mewn adroddiad profforma staffio bob dydd a rennir gyda'r Pennaeth Nyrsio, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Pan na lenwir lefelau staffio trwy nyrsys banc neu asiantaeth, ceisir cymeradwyaeth am ddefnyddio cwmni Thornbury.
- Mae'r nyrs arweiniol ar gyfer gofal heb ei drefnu wedi bod yn cyfarfod ag uwch-nyrs yr Adran Achosion Brys bob mis i fonitro'r gofynion

llywodraethu a rheoli ar gyfer y rôl. Mae adolygiadau o ddatblygiad a pherfformiad, absenoldeb oherwydd salwch a chyfraddau swyddi gwag yn ffurfio rhan o'r cyfarfod hwn, sy'n llywio'r broses o uwchgyfeirio pryderon i'r Pennaeth Nyrsio.

- Bydd dangosfwrdd integredig yn cael ei ddatblygu yn y tymor canolig i roi ystwythder uwch wrth ymateb a dadansoddi llif gwaith effaith uchel.
- Fel y nodwyd yn gynharach, buddsoddwyd yn sylweddol i roi cyfleoedd i'r staff er mwyn cefnogi eu llesiant. Mae'r staff yn cael eu cyfeirio at y rhain trwy sawl dull yn y bwrdd iechyd, gan gynnwys:
 - Cyfryngau cymdeithasol
 - SharePoint
 - Tudalennau gwe Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
 - Fforymau ymgysylltu â staff
 - Fforwm arweinyddiaeth
 - Blog y Prif Weithredwr
- Cynhaliwyd digwyddiad dysgu i gydweithwyr yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol a threfnwyd ymgysylltiad pellach i drafod canfyddiadau AGIC yn agored a heb rannu bai, i annog cyfranogiad.
- Myfyrio a chyfnewid syniadau ar wella a newid.
- Darparu cymorth 'mynediad agored' i gydweithwyr yr effeithiwyd arnynt.
- Mae pwyslais sylweddol wedi'i roi ar sesiynau gwranddo ac ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda'r tîm ar unwaith ar ôl yr ymweliad i sicrhau bod gan y timau gyfle i rannu a mynegi barn.
- Mae'r tîm arwain ar bob lefel wedi gwella arweinyddiaeth weladwy yn sylweddol trwy gerdded o gwmpas a modelu gwerthoedd ac ymddygiadau'r bwrdd iechyd.

Diweddariad Rhagfyr 2021

- Mae trefniadau lleol o fewn y Grŵp Ardal Integredig a'i wasanaethau yn darparu sicrwydd trwy gyfarfodydd sicrwydd misol y Grŵp Gwasanaeth Clinigol. Yn ychwanegol at hyn, cynhelir cyfarfod busnes perfformiad misol gyda'r Tîm Gweithredol i roi sicrwydd ar lefel y Grŵp Ardal Integredig.
- Datblygwyd y meysydd canlynol i gefnogi trefniadau arwain priodol:

- Gwnaed buddsoddiad pellach i gefnogi'r staff a hyrwyddo a chynnal llesiant y staff trwy ddatblygu dulliau a gweithgareddau Llesiant, Diwylliant ac Arweinyddiaeth o fewn Rhaglen Wella Ysbyty'r Tywysog Siarl. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y gweithlu a chyflawni amcanion y rhaglen. Bydd y Map Llwybr Lefel Uchel yn arwain y gweithgareddau dros y misoedd nesaf.

- Cyflwynwyd y canlynol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021:
 - Nodi'r Dadansoddiad o Wraidd y Broblem drwy adolygiad o adroddiadau a data arall sy'n bodoli eisoes i ddilysu tueddiadau.
 - Cwblhawyd Asesiad Anghenion Llesiant/Profiad y Gweithwyr trwy sesiynau gwrando cynnar i nodi anghenion llesiant a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â diogelwch a llesiant corfforol a seicolegol.
 - Cynhaliwyd asesiad o ddiogelwch seicolegol i benderfynu ar lefelau o ddiogelwch seicolegol a gallu'r staff i ymgysylltu'n llawn â'r Cynllun Gwella.
 - Cynhaliwyd sgysiau arweinyddiaeth - Sesiynau gwrando i glywed sut mae tîm arwain triwriaeth yn ei wneud, i asesu lefel y parodwydd i fynd i'r afael â'r gwaith arwain dyfnach a'r materion diwylliannol, ac i helpu'r triwriaeth i ddeall ei rôl yn y broses wella.

- Yn benodol o ran rolau a chyfrifoldebau :
 - Mae disgrifiadau swyddi'n cael eu hadolygu a'u safoni.
 - Mae lefelau cymhwysedd yn cael eu mapio i fandiau.
 - Mae gwaith recriwtio yn cael ei wneud.
 - Mae sesiynau arwain wedi cychwyn yn fewnol a thrwy arbenigwyr allanol a hwyluswyd trwy'r bartneriaeth â Gwelliant Cymru.
 - Parhad â'r fframwaith arweinyddiaeth, gwerthoedd ac ymddygiad.

- Mae Rhaglen Gwella Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cynnwys yr Adran Achosion Brys a theatrau a ffrwd waith prosiect llif newydd o dan ddull 'un' rhaglen. Mae'r rhaglen, wrth iddi aeddfedu a symud i ffrwd o gamau gweithredu a gweithgareddau diagnostig ar unwaith, yn cael ei hailosod i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol a chyflawniad gweithgaredd gwella.

- Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu'r rhaglen gan y Prif Swyddog Gweithredu ym mis Medi 2021 gan arwain at wneud newidiadau i gryfhau trefniadau goruchwyllo, craffu a sicrwydd y rhaglen. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys y canlynol:
 - Mae cynnydd y rhaglen yn cael ei fonitro trwy Fwrdd Rhaglen amlddisgyblaethol misol a noddir gan weithrediaeth.
 - Mae cyfarfod goruchwyllo wythnosol y Grŵp Ardal Integredig wedi'i sefydlu i roi ystyriaeth amserol i faterion, risgiau a chynlluniau gweithredu ac i ysgogi cyflymder y rhaglen tra'n cefnogi'r timau gweithredol gyda'r gwaith cyflawni.
 - Cynhelir cyfarfodydd wythnosol y Tîm Prosiect Gwella ar gyfer yr Adran Achosion Brys a theatrau gyda chefnogaeth tîm y rhaglen.
 - Sefydlwyd Hwb Gwella i arwain y rhaglen i ddarparu arbenigedd penodol er mwyn gwella'r cymorth sydd ar gael i'r timau cyflawni gweithredol. Mae strwythur yr hwb yn cynnwys adnoddau staff sydd wedi'u rhyddhau i flaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio, rheoli rhaglen, datblygiad y gweithlu a datblygiad sefydliadol, cyfathrebu a gwella. Mae'r Hwb yn caniatáu ystyriaeth ehangach o ddibyniaethau ar draws y system.
 - Mae pob agwedd ar y rhaglen yn cael eu rheoli gan grŵp arwain triwriaeth gydag arbenigedd pwnc o bob rhan o'r bwrdd iechyd.
 - Datblygwyd taenlen gadarn i olrhain y cynllun gweithredu i fonitro camau gweithredu ar draws y rhaglen. Bydd yr offeryn hwn yn cefnogi pa mor drylwyr yw'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu a bydd hefyd yn sicrhau tryloywder a sicrwydd i Fwrdd y Rhaglen a'r sefydliad ehangach.
 - Datblygwyd dangosfwrdd perfformiad i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cyd-fynd ag amcanion y rhaglen.
 - Rydym wedi datblygu trefniadau'r bartneriaeth ymhellach gyda Gwelliant Cymru a'r Uned Gyflawni i sicrhau bod y cymorth yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion Rhaglen Wella Ysbyty'r Tywysog Siarl.
 - Datblygwyd Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys Cynllun Rheoli Risg, sy'n ystyried trefniadau llywodraethu ar draws y Grŵp Ardal Integredig a'r bwrdd iechyd ehangach, sy'n cyd-fynd â'r dull a'r fethodoleg sefydliadol.
 - Mae adroddiadau amserol a rheolaidd yn tanategu'r rhaglen gan gynnwys adroddiadau wythnosol ar y prif bwyntiau ar oedi o ran cynnydd, risgiau, materion a chyflawniadau a gyflwynir i Fwrdd Arweinyddiaeth Strategol y bwrdd iechyd.

Mae'r gwaith o adrodd wedi parhau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd i'r Cyngor Iechyd Cymuned. Cwblhawyd adroddiad llawn ar weithgaredd sicrhau ansawdd wardiau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a'i gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd gydag argymhelliad i'w gyflwyno ar draws yr holl safleoedd a pharhau i fonitro drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

- Datblygu a gweithredu'r cynllun Safe-2-Start - mae cyfarfodydd dyddiol wedi bod yn ar waith ers mis Tachwedd 2021 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae presenoldeb yn cynnwys Pennaeth Llif Cleifion, y Pennaeth Nyrsio, Rheolwyr Ward, Nyrsys Arweiniol ac Uwch Nyrsys. Nod y cyfarfod yw nodi'r sefyllfa staffio am y dydd o fewn yr ysbyty, gan ganolbwyntio ar y galw yn yr Adran Achosion Brys a metrigau ansawdd a diogelwch allweddol sy'n ymwneud â gofal cleifion.
- Yn ystod y cyfarfod mae'r Rheolwyr Wardiau a'r Uwch Nyrsys yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys heriau staffio i gefnogi unrhyw adrannau lle mae'r angen mwyaf a symud y staff yn unol â hynny i sicrhau bod wardiau ac adrannau mewn man cychwyn diogel.
- Trwy'r cyfarfodydd Safe-2-Start, mae wardiau gan gynnwys yr Adran Achosion Brys bellach hefyd yn rhoi diweddariad dyddiol o absenoldebau'r staff oherwydd COVID-19 gan nodi diwrnodau 6 a 7 o'r cyfnod ynysu er mwyn blaengynllunio a threfnu dyddiadau dychwelyd i'r gwaith.
- Mae'r Achos Busnes ar gyfer gofynion y gweithlu nyrsio wedi'i gwblhau ac yn aros am gymeradwyaeth derfynol gan y bwrdd iechyd. Un adnodd penodol sy'n rhan o'r achos busnes yw rôl Uwch Nyrs yr Adran Achosion Brys ar gyfer Datblygiad Proffesiynol.
- Er mwyn cryfhau'r ffocws ar y gweithlu ymhellach, mae'r Dangosfwrdd Perfformiad a ddatblygwyd ar gyfer y rhaglen yn darparu trosolwg a gwaith monitro ar lefel gwasanaeth, lefel rhaglen a lefel y bwrdd o'r metrigau allweddol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag absenoldebau, swyddi gwag ac adolygiad o ddatblygiad a pherfformiad. Mae metrigau sy'n ymwneud â digwyddiadau, cwynion a phryderon hefyd wedi'u cynnwys ar y Dangosfwrdd Perfformiad.
- Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn cefnogi'r gwaith o ariannu gweithiwr gradd ganol ychwanegol gyda'r nos, er na all gyflenwi pob shift sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae adolygiad o'r gweithlu meddygol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd yn cefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â'r diffyg hwn ymhellach.

- Mae'r nyrs arweiniol ar gyfer gofal heb ei drefnu wedi parhau i gyfarfod â'r Uwch Nyrs ar gyfer yr Adran Achosion Brys i fonitro gofynion llywodraethu a rheoli'r rôl. Yn ystod y cyfarfod hwn trafodir y meysydd canlynol; yr Adran Achosion Brys, yr Uned Mân Anafiadau a Chlinig Torri Esgyrn mewn perthynas ag ansawdd, diogelwch, digwyddiadau, pryderon, profiad cleifion, yr amgylchedd yn ogystal â'r gweithlu.
- Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd i'r staff gefnogi eu llesiant drwy'r dulliau canlynol: y cyfryngau cymdeithasol, SharePoint, tudalennau gwe Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, fforwm arweinyddiaeth. Ers ymweliad cychwynnol AGIC, mae'r rheolwyr a'r arweinwyr wedi parhau i sicrhau bod y staff yn cael eu hysbysu'n llawn am y camau a gymerwyd i fuddsoddi'n sylweddol yn llesiant y staff. Gwnaed hyn drwy ddarparu sesiynau ymgysylltu ar y dyddiadau canlynol:
 - 12 Hydref, 1 Tachwedd ac yn fwyaf diweddar 8 Rhagfyr pan oedd 29 aelod o staff yn bresennol. Nod y sesiwn ym mis Rhagfyr oedd rhoi cyfle i'r staff baratoi ar gyfer beth i'w ddisgwyl yn sgil cyhoeddi adroddiad AGIC ar 15 Rhagfyr. Rhoddodd y sesiwn wybodaeth i'r staff am y diddordeb a ddisgwylir yn y cyfryngau, cwestiynau cyffredin, cydnabyddiaeth o sensitifrwydd yr adroddiad a rhoddodd hefyd opsiynau cymorth llesiant ychwanegol i'r staff.
- Er mwyn cefnogi arweinyddiaeth weledol a modelu gwerthoedd ac ymddygiadau'r bwrdd iechyd, mae'r uwch dîm rheoli yn cerdded o amgylch yr adrannau bob dydd i gynnal gwiriadau arweinwyr pwrpasol. Datblygwyd rota gwiriadau arweinwyr pwrpasol a nodwyd unigolion neilltuo. Mae'r gwiriadau arweinwyr pwrpasol yn canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol; staff, yr amgylchedd, cleifion ac unrhyw gamau a gymerwyd. Mae unrhyw themâu sy'n codi dro ar ôl tro a nodir yn ystod y rowndiau hyn yn cael eu dogfennu a'u dosbarthu trwy neges e-bost wythnosol.
- Bydd y Map Llwybr Lefel Uchel yn arwain y gweithgareddau dros y misoedd nesaf.
- Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth gyfathrebu yn cael mynd rhagddo i sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol â'n cleifion a'n staff. Rydym wedi dechrau ar y gwaith hwn drwy ehangu ein llwyfannau cyfathrebu ar gyfer y staff.

Yr hyn a welsom yn yr arolygiad dilynol

Canfuom fod y bwrdd iechyd wedi gweithredu ac wedi cynnal mwyafrif y gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn yr arolygiad diwethaf yn ymwneud ag ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach isod.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom fod y systemau a'r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad blaenorol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod prosesau goruchwyllo a chefnogi'r staff anffurfiol o ddydd i ddydd ar waith yn yr adran a bod goruchwyliaeth gan y rheolwyr wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, roedd rhai staff yn dal i deimlo bod rhywfaint o ddatgysylltiad rhwng yr uwch reolwyr yn y bwrdd iechyd a'r rhai sy'n gweithio yn yr Adran Achosion Brys.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uwch reolwyr yn parhau i fod yn weladwy o fewn yr Adran Achosion Brys a'u bod yn parhau i ymgysylltu â'r staff.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol yn yr ysbyty a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gallai'r staff ddisgrifio eu rolau ac roeddent yn wybodus ynglŷn ag anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd dibyniaeth fawr ar staff asiantaeth ar adeg yr arolygiad. Roedd hyn oherwydd salwch y staff yn bennaf, a bod y staff yn gorfod ynysu yn dilyn profion COVID-19 positif. Fodd bynnag, canfuom fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau gwasanaethau'r un staff asiantaeth lle y bydd yn bosibl er mwyn sicrhau parhad gofal a bod yn gyfarwydd â'r adran.

Cawsom wybod bod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio staff nyrsio a staff meddygol. Fodd bynnag, mae gwaith recriwtio yn parhau i fod yn heriol o fewn y cyd-destun cenedlaethol o ddiffyg nyrsys/meddygon.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y gymhareb staff i glaf yn amrywio yn dibynnu ar y niferoedd ac anghenion gofal y cleifion sy'n dod i'r Adran Achosion Brys. Gwelsom fod lefelau staffio yn dderbyniol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd diffyg Ymarferwyr Nyrsio Brys ac, fel y soniwyd yn flaenorol, nyrsys brysbennu profiadol. Disgwylwn y bydd y bwrdd iechyd yn parhau i fonitro lefelau staffio cyffredinol yn yr adran, staff meddygol a staff nyrsio fel ei gilydd, ac yn parhau i ganolbwyntio ar y gwaith o gefnogi a goruchwyllo'r staff.

Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd barhau i fonitro'r amrywiadau yn nifer y cleifion yn yr Adran Achosion Brys a defnyddio hyblygrwydd wrth leoli staff o ardaloedd lle mae galw isel i ardaloedd lle mae galw mawr.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant y staff a gwelsom fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol staff unigol yn parhau i amrywio. Yn gyffredinol, canfuwyd bod cydymffurfedd â hyfforddiant yn isel a dywedwyd wrthym fod hyn yn sgil y pandemig a phwysau staffio.

Y gwelliant sydd ei angen

Rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Parhau ag ymdrechion i recriwtio staff.
- Parhau i fonitro'r amrywiadau yn niferoedd y cleifion yn yr Adran Achosion Brys a defnyddio hyblygrwydd wrth leoli'r staff o ardaloedd lle mae galw isel i ardaloedd lle mae galw mawr.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau pob elfen o hyfforddiant gorfodol

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu arolygiadau dirybudd. Byddwn bob tro yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd oherwydd bod hyn yn ein caniatáu i weld gwasanaethau yn y ffordd maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau y mae'r gwasanaeth wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu y byddwn ond yn canolbwyntio ar y [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol, byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol. Byddwn hefyd yn amlygu unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill y mae angen eu gwneud.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Canfuom fod system cyhoeddi llais wedi'i recordio ymlaen llaw wedi'i gosod sy'n chwarae cerddoriaeth gefndirol ac yn rhoi cyngor, yn Gymraeg a Saesneg, ar COVID-19, ymolchi dwylo a rhybuddion am gam-drin yn erbyn y staff. Cafodd y system ei sefydlu hefyd i gyhoeddi amseroedd aros. Fodd bynnag, nid oedd y swyddogaeth benodol hon yn gweithio ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad.</p>	<p>Nid oedd y cleifion yn cael eu hysbysu am amseroedd aros a allai arwain at y cleifion yn mynd yn bryderus, yn rhwystredig ac yn grac.</p>	<p>Gwnaethom dynnu sylw un o uwch reolwyr yr Adran Achosion Brys at y mater.</p>	<p>Cymerwyd camau i sicrhau bod y system yn cyhoeddi amseroedd aros.</p>
<p>Gwelsom nifer o gypyrddau a drysau i ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer paratoi meddyginiaethau wedi'u gadael heb eu diogelu. Gwelwyd cemegau hefyd mewn cypyrddau heb eu cloi ac ar arwynebau gwaith mewn storffeydd. Roedd yr ystafell</p>	<p>Roedd y materion hyn yn peri risg sylweddol o niwed i'r cleifion a'r staff.</p>	<p>Gwnaethom dynnu sylw'r Pennaeth Nyrsio at hyn.</p>	<p>Cymerwyd camau ar unwaith i sicrhau bod drysau cypyrddau'n cael eu trwsio lle bo angen a'u cadw dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Cafodd y staff eu hatgoffa i gadw drysau'r</p>

<p>driniaeth gêm ac wyneb yn peri pryder penodol. Yn yr ardal hon, canfuom offer miniog ar arwynebau gwaith ac nid oedd cyffuriau megis anesthetig lleol ac adrenalin wedi'u storio'n ddiogel. Roedd yr ystafell hon wedi'i lleoli yn yr ardal triniaeth ddydd lle'r oedd y cleifion iechyd meddwl yn cael eu lletya.</p>			<p>ystafelloedd triniaeth a'r cypyrddau ar glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.</p> <p>Mae offer meddygol yn cael ei storio'n briodol ac mae'r staff yn cael eu hatgoffa o beryglon gadael offer o'r fath yng ngolwg y cyhoedd.</p> <p>Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac mae'r staff yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau o ran storio meddyginiaeth.</p>
<p>Yn yr ardal triniaeth ddydd, canfuom, yn achos un claf, nad oedd symptomau sepsis wedi'u nodi'n glir, eu monitro na'u huwchgyfeirio mewn modd amserol. Yn ogystal, ni wnaed arsylwadau drachefn dros gyfnod o chwe awr ar bedwar claf arall, a oedd yn sâl yn glinigol.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu y gallai newid mewn cyflwr fynd heb i neb ei sylwi gydag oedi posibl cyn dechrau triniaeth gan arwain at niwed i'r cleifion.</p>	<p>Gwnaethom dynnu sylw'r Pennaeth Nyrsio at hyn.</p>	<p>Cyflwynwyd proses well o fonitro ac arsylwi'r cleifion a oedd yn cael ei goruchwyllo gan y nyrs â gofal.</p>

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty'r Tywysog Siarl, yr Adran Achosion Brys

Dyddiad yr arolygiad: 18 a 19 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty'r Tywysog Siarl, yr Adran Achosion Brys

Dyddiad yr arolygiad: 18 a 19 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl fynedfeydd i'r adran yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus.	4.1 Gofal ag urddas	Mae amserlen lanhau wedi'i gweithredu gan y Tîm Tiroedd a Gerddi yn unol â'r rota. Mae taflen weithdrefn gymeradwyo wedi'i chreu. Mae arwyddion dim ysmegu wedi'u gosod ar draws pob safle Cwm Taf Morgannwg (gan gynnwys Ysbyty'r Tywysog Siarl). Mae gan y Tîm Diogelwch Cyfleusterau ar y safle y dasg o herio ysmegu wrth gynnal eu patrolau rheolaidd.	Rheolwr Cymorth Cyfleusterau Pennaeth Iechyd a Diogelwch	Cyflawnwyd. Monitro parhaus trwy archwiliadau papur. Cyflawnwyd ac yn barhaus.
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r defnydd o sgriniau plastig/perpecs yn y ciwbiclau a rennir yn yr ardal triniaeth ddydd er mwyn sicrhau y			Mae datganiad yn cael ei gyflwyno ar gyfer sgriniau persbecs newydd. (Nid yw'r sgriniau presennol yn cynnig digon o breifatrwydd)	Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Clinigol

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cynigir lefelau digonol o breifatrwydd i'r cleifion. Dylid hefyd ystyried cyfyngu ar nifer y cleifion sy'n cael eu lletya yn y ciwbiclau ar unrhyw un adeg er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas.		Mae nifer y cadeiriau yn y ciwbiclau wedi'i lleihau o bedwar i dri.		Cyflawnwyd.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn rhoi gwybodaeth gywir a chyson i'r cleifion am eu gofal.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Cyfathrebu i ailadrodd y systemau a'r prosesau i barhau trwy sesiynau briffio ar ddechrau pob shiftt a chyfarfodydd diogelwch trwy gydol y dydd. Lleoli'r staff Cynnal Bywyd Pediatrig Uwch yn yr Adran.	Nyrs Arweiniol a Chyfarwyddwr Clinigol ar gyfer yr Adran Achosion Brys Pennaeth Diogelwch Cleifion y Grŵp Ardal Integredig	Cyflawnwyd. Monitro parhaus trwy sesiynau briffio i'r staff a dogfennau cyfarfodydd diogelwch Ebrill 2022.
Rhaid i'r bwrdd iechyd lunio gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer yr ardal triniaeth sy'n nodi sut i ddefnyddio'r ardal hon.	5.1 Mynediad amserol	Cwblhau'r weithdrefn weithredu safonol drafft. Ysgogi gweithrediad gweithdrefn weithredu safonol gofal triniaeth ddydd.	Pennaeth Nyrsio	Mai 2022. Mai 2022 ymlaen.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o wella'r gwaith o arsylwi ar y cleifion yn y brif ystafell aros ac annog y nyrsys brysbennu i gynnal sgan gweledol o'r ystafell aros wrth alw'r cleifion i'r ystafell frysbennu.</p>		<p>Mae system Baner Goch wedi'i chyflwyno. Bydd monitro parhaus yn parhau trwy waith archwilio a datix.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cyflawnwyd. Cyflwynir gwaith monitro parhaus a datix yn unol â digwyddiadau'r Faner Goch ac mae pob un yn cael ei ymchwilio wedi hynny, a chynhyrchir cynlluniau gweithredu.</p>
<p>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</p>				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cynnal ac yn cofnodi asesiadau parhaus rheolaidd ac amserol o'r cleifion tra eu bod yn yr Adran Achosion Brys.</p>	<p>2.2 Atal niwed pwysau a niwed i feinwe</p>	<p>Parhau i fonitro'r gwaith o gwblhau'r system baner goch yn yr ardal triniaeth ddydd a'r ystafelloedd aros</p> <p>-rhestr wirio diogelwch cleifion yr Adran Achosion Brys yn y man anafiadau difrifol sy'n cael ei harchwilio'n ddyddiol ar AMaT. Mae'r asesiadau'n cael eu hatgyfnerthu gan</p>	<p>Uwch-nyrs</p>	<p>Cyflawnwyd. Monitro parhaus i barhau trwy AMaT a chyfarfodydd diogelwch.</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		drafodaethau am y cleifion sy'n peri pryder yn y cyfarfodydd diogelwch		
Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro a dogfennu'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal ar gyfer y cleifion sydd wedi cael canlyniad COVID-19 positif a'r cleifion sydd wedi cael canlyniad COVID-19 negyddol yn yr ardal ddadebru ac uwchgyfeirio unrhyw faterion trwy Datix neu gofrestr risg yr adran.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae llwybrau ar waith ac maent wedi'u cymeradwyo gan y tîm atal a rheoli heintiau. Monitro unrhyw ddigwyddiadau andwyol yn barhaus trwy datix.	Pennaeth Nyrsio	Cyflawnwyd. Monitro parhaus trwy system adrodd Datix.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlu proses gyson i ymchwilio i achosion o COVID-19.		Parhau i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau andwyol trwy datix ac adrodd yn wythnosol trwy eithriad ac am dueddiadau i gyfarfod cell y tîm atal a rheoli heintiau Proses ymchwilio nosocomiaidd wedi'i sefydlu ar lefel y bwrdd iechyd.	Pennaeth Nyrsio Cyfarwyddwr Nyrsio Grŵp Ardal Integredig Rhondda a Thaf-Elái	Cyflawnwyd. Monitro parhaus i barhau trwy system adrodd Datix. Cyflawnwyd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau nad oes rhaid i'r staff adael yr ardal triniaeth ddydd er mwyn cael rhai eitemau o feddyginiaeth o'r man anafiadau difrifol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae gwaith yn cael ei wneud i greu lle ar gyfer 'mediwell' (yn amodol ar newidiadau mewn llwybrau COVID).	Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Clinigol	Gorffennaf 2022.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau na roddir ocsigen i'r cleifion oni bai ei fod wedi'i ragnodi'n ffurfiol.		Parhau i fonitro trwy Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol a digwyddiadau andwyol trwy datix.	Uwch-nyrs	Cyflawnwyd. Monitro parhaus i barhau trwy system AMaT.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn monitro ac yn dogfennu sgorau poen ac effeithiolrwydd y dull lleddfdu poen a roddir.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Ar waith – archwiliwyd ac adroddwyd ar dueddiadau mewn cyfarfodydd llywodraethu a busnes adrannol bob chwarter yn unol â hynny.	Uwch-nyrs	Cyflawnwyd. Monitro parhaus i barhau. Trwy archwiliad clinigol.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uwch reolwyr yn parhau i fod yn weladwy o fewn yr Adran Achosion Brys a'u bod yn parhau i ymgysylltu â'r staff.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Bydd rowndiau rheolaidd y rheolwyr yn parhau.	Cyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp Ardal Integredig	Cyflawnwyd a bydd yn parhau trwy

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd yr uwch reolwyr yn parhau i fynychu cyfarfodydd staff a digwyddiadau ymgysylltu lle bo'n briodol.		gofnodion cyfarfodydd.
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'u hymdrechion i recriwtio staff.	7.1 Gweithlu	Gweithredu'r Papur Gweithlu Nyrsio yr Adran Achosion Brys i recriwtio'r nyrsys cofrestredig, gweithwyr cynnal gofal iechyd a chydlynwyr llif cleifion parhaol ychwanegol a chymwys.	Uwch-nyrs	Gorffennaf 2022.
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r amrywiadau yn nifer y cleifion yn yr Adran Achosion Brys a defnyddio hyblygrwydd wrth leoli'r staff o ardaloedd lle mae galw isel i ardaloedd lle mae galw mawr.		Wedi'i sefydlu trwy'r cyfarfodydd diogelwch cleifion ynghylch staffio yn yr adran a'r cyfarfodydd Safe2Start a chyfarfodydd gwelyau ffurfiol rheolaidd i adleoli'r staff o rannau eraill o safle'r ysbyty i gefnogi. Trywydd archwilio ar waith.	Nyrs Arweiniol a Phennaeth Llif Cleifion	Cyflawnwyd. Monitro parhaus i barhau. Trwy ddogfennau/ta enlenni cyfarfodydd Safe2Start/ chyfarfodydd gwelyau.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol.		Mae staff ychwanegol yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o ryddhau'r staff.	Uwch-nyrs	Cyflawnwyd. Monitro parhaus i barhau. Mae'r gwaith o

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Yn cael ei fonitro'n fisol trwy'r Uwch Nyrs yn adrodd fel eithriad os na chaiff y llwybr gwelliant ei gyflawni.		ddefnyddio system cofnod staff electronig awtomatig yn orfodol.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: